

Cyngor Sir Penfro

Strategaeth ac Arweiniad Polisi ar e-Ddiogelwch i Ysgolion Cyngor Sir Penfro



2013 - 2016



www.pembrokeshire.gov.uk

Mae Cyngor Sir Penfro o'r farn y daw manteision mawr yn sgil defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion. Bydd cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth e-ddiogelwch a chynllunio yn unol â hynny yn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau electronig yn cael eu defnyddio'n briodol, yn effeithiol, yn ddiogel ac yn gadarnhaol.

Bydd y strategaeth hon a'r templed polisi hwn yn helpu ysgolion i drafod y materion cysylltiedig ac adolygu eu polisi ar e-ddiogelwch.

Nod y ddogfen hon yw cynorthwyo ysgolion sir Benfro i lunio polisi e-ddysgu effeithiol a chadarn.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r defnydd ar dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gan gynnwys y Rhyngwrwyd a thechnolegau cysylltiedig wedi datblygu'n fawr yn y blynyddoedd diwethaf ac mae bellach yn cynnwys pob disgybl ac aelod staff. Er bod manteision lu gan dechnolegau grymus o'r fath, maent hefyd yn cynnig nifer o heriau i ddefnyddwyr ac mae angen ystyried yn ofalus y materion sy'n codi yn sgil defnyddio'r technolegau grymus hyn.

Felly, mae angen sicrhau bod polisi e-ddiogelwch cyfredol ac ystyriol gan bob ysgol. Mae'n bwysig bod yr holl staff yn hollol ymwybodol o risgiau ar-lein a bod ysgolion yn sicrhau eu bod yn bodloni'r heriau e-ddiogelwch mewn ffordd gadarnhaol ac ymarferol. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn gallu troi polisi e-ddiogelwch yn arfer effeithiol.

Mae disgyblion yn gyfarwydd ac wedi arfer â defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, rhaglenni negeseua gwib, defnyddio testun a defnyddio dyfeisiau symudol. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn gwerthfawrogi rhai o'r heriau ar-lein ac nid ydynt yn llwyr werthfawrogi canlyniadau eu gweithrediadau a'u hymddygiad ar-lein. Felly, mae'n hanfodol bod disgyblion a staff yn cael eu hamddiffyn gan bolisiau ac arfer e-ddiogelwch cadarn.

Mae nifer o fentrau'r Llywodraeth yn ceisio codi ymwybyddiaeth o beryglon ar-lein a diogelu disgyblion rhagdynt, gan gynnwys mentrau Llywodraeth Cymru (HWB) a'r ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP). Mae sefydliadau eraill fel Child Net, UK Safer Internet Centre a Wisekids yn weithgar iawn yn y maes hwn hefyd.



Felly, mae'n bwysig bod e-ddiogelwch yn flaenoriaeth ym mhob ysgol. Lluniwyd yr arweiniad hwn o ganlyniad i gydweithio rhwng Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Gwasanaethau TG Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, gyda chymorth panel o benaethiaid o ysgolion Sir Benfro, Gwasanaethau, Addysg a Phlant, Adrannau Cyfreithiol a Diogelu Data Sir Benfro a Heddlu Dyfed Powys.

1.0 Hunanadolygiad e-Ddiogelwch

- Elfen a – polisiau ac arfer
- Elfen b – cynllunio ar gyfer e-ddiogelwch
- Elfen c – deall y risgiau
- Elfen d – monitro diogelwch data

2.0 Ymateb i Ddigwyddiad sy'n Destun Pryder

3.0 Ysgrifennu Polisi e-Ddiogelwch Ysgol

- 3.1 Pam ysgrifennu polisi e-ddiogelwch?
- 3.2 Beth yw e-ddiogelwch?
- 3.3 Sut ydw i'n defnyddio templed y polisi?
- 3.4 Datganiad o awdurdod
- 3.5 Cyfrifoldebau staff yr ysgol
- 3.6 Cyfrifoldebau'r ysgol

4.0 Templed Polisi e-Ddiogelwch Ysgolion

- 4.1 Pwy fydd yn ysgrifennu ac yn adolygu'r polisi?
- 4.2 Addysgu a Dysgu
 - 4.2.1 Pam mae defnyddio'r Rhyngwrwyd yn bwysig?
 - 4.2.2 Sut mae defnyddio'r Rhyngwrwyd o fudd i addysg?
 - 4.2.3 Sut gall defnyddio'r Rhyngwrwyd ymestyn dysgu?
 - 4.2.4 Sut bydd disgyblion yn dysgu sut i werthuso cynnwys?
- 4.3 Rheoli Gwasanaethau Gwybodaeth
 - 4.3.1 Sut caiff diogelwch systemau gwybodaeth ei gynnal?
 - 4.3.2 Sut caiff e-bost ei reoli?
 - 4.3.3 Sut caiff cynnwys wedi'i gyhoeddi ei reoli?
 - 4.3.4 A all gwaith disgyblion a delweddau ohonynt gael eu cyhoeddi?
 - 4.3.5 Sut caiff rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol eu rheoli?
 - 4.3.6 Sut caiff hidlo ei reoli?
 - 4.3.7 Sut caiff fideo-gynadledda ei reoli?
 - 4.3.8 Sut gellir rheoli technolegau sy'n dod i'r amlwg?
 - 4.3.9 Sut dylai data personol gael ei amddiffyn?
- 4.4 Penderfyniadau Polisi
 - 4.4.1 Sut caiff mynediad i'r Rhyngwrwyd ei awdurdodi?
 - 4.4.2 Sut caiff risgiau eu hasesu?
 - 4.4.3 Sut eir i'r afael â chwynion?
 - 4.4.4 Sut dylai'r Rhyngwrwyd gael ei defnyddio ar draws y gymuned?

4.5 Polisi Cyfathrebiadau

- 4.5.1 Sut caiff y polisi ei gyflwyno i ddisgyblion?
- 4.5.2 Sut caiff y polisi ei drafod gyda staff?
- 4.5.3 Sut caiff cefnogaeth rhieni ei hennyn?

5.0 Polisi ar Gyfathrebu Electronig a Chyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Staff Ysgol

- 5.1 Cyflwyniad
- 5.2 Y rhyngwrwyd yn yr ysgol
- 5.3 E-bost
- 5.4 Cyfathrebiadau cymdeithasol ar-lein
- 5.5 Cyfathrebu ar-lein amser real
- 5.6 Camddefnyddio offer electronig
- 5.7 Monitro a phreifatrwyd
- 5.8 Toriadau a chosbau
- 5.9 Arfer da i staff ysgolion
- 5.10 Disgwyliadau o ran yr ysgol

6.0 Deunyddiau Ategol

(cyhoeddir ystod lawn o ddeunyddiau ategol ar Borth Sir Benfro a Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan HWB)

- 6.1 Polisi defnyddiwr derbyniol i staff
- 6.2 Polisi defnyddiwr derbyniol i staff dros dro a staff cyflenwi
- 6.3 Polisi defnyddiwr derbyniol i ddefnyddwyr cymunedol cyfrifiaduron yr ysgol
- 6.4 Polisi defnyddiwr derbyniol i fyfyrwyr ysgol uwchradd
- 6.5 Polisi defnyddiwr derbyniol i ddisgyblion ysgol gynradd
- 6.6 Polisi defnyddiwr derbyniol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen
- 6.7 Llythyr i reini i gyd-fynd â ffurflenni'r polisi defnyddiwr derbyniol
- 6.8 Llythyr caniatáu delweddau a fideos a ffurflen caniatâd rhieni

7.0 Cysylltiadau a Chyfeiriadau e-Ddiogelwch

8.0 Fframwaith Cyfreithiol

9.0 Cydnabyddiaeth

1.0 Hunanadolygiad e-Ddiogelwch

Lluniwyd yr hunanadolygiad i'ch helpu chi i werthuso arfer presennol ym maes e-ddiogelwch.

Ym mhob adran, rydym wedi amlinellu 3 lefel i ysgolion eu defnyddio i fesur eu harfer presennol yn eu herbyn – Datblygu, Sefydlu ac Ymestyn. Ochr yn ochr â'r rhain, rydym wedi rhestru'r camau allweddol y gallai ysgol eu cymryd i symud drwy'r lefelau, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael gan Gyngor Sir Penfro i helpu i gyflawni gwelliannau.

Lluniwyd y lefelau fel eu bod yn heriol. Mae Lefel 3 (Datblygu) yn cyflwyno disgygliadau sylfaenol ysgolion ynghylch y maes e-ddiogelwch hwnnw. Lefel 2 (Sefydlu) yw safon is yr ICT Mark cenedlaethol. Mae Lefel 1 (Ymestyn) yn arddangos arfer gorau, gan adeiladu ymhellach ar safon yr ICT Mark.

Cymerwyd yr elfennau hunanadolygu o fframwaith hunanadolygu TGCh Naace ar gyfer ysgolion. Mae'r tîm ymgynghorol ar gyfer TGCh yn argymhell bod pob ysgol yn defnyddio'r fframwaith hunanadolygu TGCh i sicrhau bod TGCh yn gallu cael ei ddarparu'n effeithiol ar gyfer addysgu, dysgu ac e-ddiogelwch ac i adolygu cynnydd yn ôl safonau cenedlaethol. Mae'r manylion llawn ar gyfer hunanadolygu i'w cael ar-lein yn: www.naace.co.uk/ictmark/srf

Mae ysgolion sydd â diddordeb mewn mynd ymhellach a chyflawni hunanadolygiad cynhwysfawr o e-ddiogelwch yn gallu defnyddio pecyn hunanadolygu "360 Degree Safe" y South West Grid For Learning yn: www.swgfl.org.uk/Staying-Safe/360-degree-safe.

Elfen a – Polisiau ac arfer

Lefel 3 (Datblygu)

Mae'r ysgol yn llwyr ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac mae'n cymryd camau priodol i sicrhau bod yr holl staff a disgyblion yn defnyddio TGCh yn gyfrifol ac yn ddiogel.

Mae ganddi ddull cydlynus o ddatblygu a gweithredu ei pholisi e-ddiogelwch.

Lefel 2 (Sefydlu)

Mae e-ddiogelwch wedi'i ymgorffori yn niwylliant ehangach yr ysgol.

Mae polisiau yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â datblygiadau mewn technoleg ac arfer.

Caiff polisiau e-ddiogelwch eu gweithredu'n gydlynus a chadarn gan yr holl staff, llywodraethwyr a disgyblion yn yr ysgol a thu hwnt, a chaiff arfer ei fonitro.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd i hybu e-ddiogelwch disgyblion y tu hwnt i'r ysgol.

Lefel 1 (Ymestyn)

Mae'r ysgol yn nodi ac ymateb yn effro i heriau newydd yn ymwneud ag e-ddiogelwch.

Trwy ddeialog adeiladol, mae'n annog disgyblion, rhieni/gofalwyr, rhanddeiliaid eraill a'r gymuned ehangach i gyfrannu at ddatblygiadau parhaus mewn polisi ac arfer e-ddiogelwch, ac yn eu helpu i ddelio â'u heriau e-ddiogelwch.

Byddai'r camau canlynol yn helpu ysgol i symud tuag at Lefel 1 (Ymestyn):

1. Sicrhau bod polisi e-ddiogelwch a defnydd derbyniol ar waith sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad llawn, a'i fod yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.
2. Sicrhau bod yr holl lawlyfrau i staff yn cynnwys siart llif ar reoli digwyddiadau e-ddiogelwch a bod digwyddiadau'n ymwneud ag e-ddiogelwch yn cael eu cofnodi.
3. Sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall sut i ymateb i bryder ynghylch e-ddiogelwch.
4. Cael Swyddog e-ddiogelwch dynodedig.
5. Monitro effeithiolrwydd y polisiâu ar waith.

I gefnogi ysgolion, bydd yr ALI yn:

1. Cynnig cyngor ac arweiniad ar ddatblygu polisi.
2. Cynnig cyngor ar bolisiau cyn eu mabwysiadu.

3. Cynnig cymorth ynghylch e-ddiogelwch i ysgolion sy'n defnyddio fframwaith 360° Safe y South West Grid for Learning a/neu Fframwaith Hunanadolygu TGCh Naace.
4. Cynnig hyfforddiant Thinkuknow CEOP i ysgolion ar ffurf modiwl Haen 3 ar amddiffyn plant.
5. Darparu adnodd cynyddol o ddeunyddiau hunangymorth ar gyfer tair cynulleidfa benodol – plant a phobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol.
6. Ymgysylltu â'r Bwrdd Ieuenctid Diogelu Lleol (Diogelwyr Ifanc) a sicrhau bod ganddynt lais gweithgar yng Ngrŵp e-Ddiogelwch Sir Benfro.
7. Archwilio ac ymhél â thechnolegau newydd i hyrwyddo'r neges e-ddiogelwch mor eang â phosibl.
8. Rhoi cymorth i ysgolion ar gyfer diwrnod blynyddol Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad.

Elfen b – Cynllunio ar gyfer e-ddiogelwch

Lefel 3 (Datblygu)

Mae cynllunio'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o rai agweddau ar e-ddiogelwch a rhai o'r sgiliau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod TGCh yn cael ei defnyddio'n ddiogel ac yn gyfrifol.

Lefel 2 (Sefydlu)

Mae cynllunio effeithiol yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion e-ddiogelwch a'r sgiliau sy'n eu galluogi i ddefnyddio TGCh yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Lefel 1 (Ymestyn)

Mae cynllunio systematig yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o faterion e-ddiogelwch ac amrywiaeth o strategaethau, sgiliau ac ymddygiadau e-ddiogelwch.

Caiff cynlluniau eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd yn sgil technoleg ac arferion sy'n newid.

Byddai'r camau canlynol yn helpu ysgol i symud tuag at Lefel 1:

1. Sicrhau bod swyddog e-ddiogelwch yr ysgol yn cofnodi digwyddiadau e-ddiogelwch, yn gweithredu yn eu cylch ac yn eu hadolygu.
2. Dylai adroddiadau'r pennaeth i gorff llywodraethol yr ysgol gynnwys adroddiad ar weithgarwch e-ddiogelwch, gan gynnwys diweddariadau ynghylch hyfforddiant, polisi ac arfer, yn ogystal â digwyddiadau e-ddiogelwch.
3. Cynnwys diweddariad e-ddiogelwch yn ystod sesiynau hyfforddiant mewn swydd yn flynyddol gyda'r holl staff.

I gefnogi ysgolion, bydd yr ALI yn:

1. Cynnig cyngor ac arweiniad drwy'r e-bost/dros y ffôn i ysgolion ynghylch digwyddiadau e-ddiogelwch.
2. Bydd crynodeb e-ddiogelwch yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol Adran 175 yr ALI i'r Pennaeth Addysg.
3. Cyflwyno hyfforddiant e-ddiogelwch mewn ysgolion.
4. Darparu siart llif sy'n dangos yn glir y weithdrefn ar gyfer rheoli digwyddiadau e-ddiogelwch mewn ysgolion.
5. Darparu cyngor ac arweiniad amserol i ysgolion pan nodir tueddiadau mewn materion e-ddiogelwch.

Elfen c – Deall y risgiau

Lefel 3 (Datblygu)

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am y problemau a'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio TGCh ac yn ymwybodol o bolisi'r ysgol a'r angen i fabwysiadu ymddygiadau priodol a chyfrifol. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn meddu ar ddigon o wybodaeth a sgiliau i'w galluogi i ddefnyddio adnoddau digidol yn ddiogel ac effeithiol.

Lefel 2 (Sefydlu)

Mae'r holl ddisgyblion, neu bron pob un ohonynt, yn deall y problemau a'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio TGCh.

Maent yn ymwybodol o bolisi'r ysgol a'r angen i fabwysiadu ymddygiadau priodol a chyfrifol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ystod dda o wybodaeth a sgiliau i'w galluogi nhw i ddefnyddio adnoddau'n ddiogel ac effeithiol yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu am unrhyw fater e-ddiogelwch.

Lefel 1 (Ymestyn)

Mae'r holl ddisgyblion, neu bron pob un ohonynt, yn mabwysiadu arferion diogel yn gyson yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae ganddynt ystod lawn o wybodaeth a sgiliau i sicrhau eu bod yn defnyddio ystod eang o adnoddau digidol yn ddiogel ac yn effeithiol.

Maent yn cymhwyso ac yn addasu'r rhain i dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Byddai'r camau canlynol yn helpu ysgol i symud tuag at Lefel 1:

1. Hyrwyddo'r diwrnod blynyddol Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ymhlith pob rhanddeiliad.
2. Ymgynghori â disgyblion, rhieni a gofalwyr yn flynyddol ynghylch materion e-ddiogelwch.
3. Darparu cyfleoedd i rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad polisi.

I gefnogi ysgolion, bydd yr ALI yn:

1. Cynnig cymorth i ysgolion wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid.
2. Cynnig ystod o adnoddau e-ddiogelwch i ysgolion.
3. Datblygu cyfathrebiadau rheolaidd ag ysgolion i amlygu tueddiadau presennol a risgiau cysylltiedig.

Elfen d – Monitro diogelwch data

Lefel 3 (Datblygu)

Mae atebion technegol yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch i ddefnyddwyr systemau TGCh yr ysgol. Mae'r rhain weithiau'n cyfyngu ar gyfleoedd dysgu ac addysgu.

Mae'r ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod data yn ddiogel ar y safle ac i ffwrdd o'r safle – e.e. trwy sicrhau bod gliniaduron a dyfeisiau symudol yn cael eu hamddiffyn gan gyfrinair a bod gyriannau caled yn cael eu hamgryptio.

Lefel 2 (Sefydlu)

Mae atebion technegol sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd yn sicrhau amgylchedd diogel i bob defnyddiwr gan wneud mwyaf o gyfleoedd dysgu ac addysgu.

Mae lefel uchel o ddiogelwch data ar bob system, gyda dulliau adfer amserol ac effeithiol mewn argyfwng.

Lefel 1 (Ymestyn)

Mae atebion technegol yn sicrhau bod systemau TGCh yr ysgol yn cael eu diogelu, heb gyfyngu ar gyfleoedd dysgu ac addysgu.

Caiff data ei storio'n ddiogel ar y safle ac i ffwrdd o'r safle ac mae adolygiadau rheolaidd yn sicrhau bod y systemau hyn yn cadw'n effeithiol.

Byddai'r camau canlynol yn helpu ysgol i symud tuag at Lefel 1:

1. Darparu gwybodaeth i'r ddesg gymorth TG (hd@pembrokeshire.gov.uk) ynghylch unrhyw drafferthion diogelwch data a allai ddigwydd.
2. Sicrhau bod yr ysgol yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf ac yn gallu dangos bod y rhain wedi'u hystyried o ran cynllun datblygu'r ysgol.
3. Archwilio'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd wrth i ddata symud o gwmpas yr ysgol. Dylai ysgolion ddeall sut mae staff yn symud data o gwmpas, trwy ba ddull a chyda pha drefniadau diogelu.
4. Cymryd rhan mewn hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn barhaus.
5. Lle caiff yr hidlo ei reoli'n lleol, sicrhau bod uwch reolwr yn cymeradwyo ffurfweddiad hidlo'r ysgol ac yn goruchwyllo'r staff sy'n ei reoli.

I gefnogi ysgolion, bydd yr ALI yn:

1. Sicrhau bod cyngor ac arweiniad ar gael bob amser ar ddiogelwch data.
2. Hybu dull o gludo data yn ddiogel.
3. Darparu cyngor ac arweiniad amserol lle y nodir tueddiadau.
4. Sicrhau bod y cyngor ac arweiniad diweddaraf gan CEOP ar gael a chyfeirio ysgolion at lysgennad wedi'i hyfforddi gan CEOP.

2.0 Ymateb i Ddigwyddiad sy'n Destun Pryder

Mae technolegau'r rhyngwrwyd a chyfathrebiadau electronig yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymestyn eu profiadau dysgu a datblygu creadigrwydd yn yr ysgol a thu hwnt iddi. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd ystyried y risgiau sydd ynghlwm wrth y ffordd y gellir defnyddio'r technolegau hyn.

Dylai polisi e-ddiogelwch gydnabod a cheisio datblygu'r medrau y mae ar blant a phobl ifanc eu hangen wrth gyfathrebu a defnyddio'r technolegau hyn yn gywir, gan gadw'n ddiogel ac ymddwyn gyda pharch tuag at bobl eraill.

Mae'r risgiau hyn i e-ddiogelwch yn cael eu hachosi gan ymddygiad amhriodol gan bobl, neu hyd yn oed ymddygiad anghyfreithlon. Rhaid delio ag unrhyw broblem bosibl ar lefel bersonol. Athrawon yw'r amddiffyniad cyntaf; mae arsylwi ymddygiad ganddynt yn holl bwysig wrth ddarganfod peryglon i ddisgyblion a datblygu ymddiriedaeth fel bod disgyblion yn rhoi gwybod am broblemau. Bydd digwyddiadau'n amrywio rhwng pranciau neu weithred ddifeddwl i weithgarwch anghyfreithlon bwriadol.


Bydd yr adran hon yn helpu staff i bennu pa gamau y gallant eu cymryd a phryd i roi gwybod am ddigwyddiad sy'n destun pryder i'r sawl sy'n gyfrifol am amddiffyn plant neu am e-ddiogelwch yn yr ysgol. Yn sgil ymgynghori â'r pennaeth, gall materion yna gael eu cyfeirio at Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol (LADO) neu'r Heddlu os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Dylai'r swyddog amddiffyn plant neu'r swyddog e-ddiogelwch roi arweiniad pe bai aelod staff yn pryderu am y defnydd a wneir gan blentyn, person ifanc neu aelod staff o'r Rhyngwrwyd. Mae'r siart llif ar y dudalen nesaf yn dangos y dull o ddatrys digwyddiad sy'n destun pryder. Ni ddylid defnyddio'r diagram hwn ar ei ben ei hun, ond yn unol â pholisi a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol.

Rhifau Ffôn Cyswllt

Tim Asesu Gofal Plant - Desg y Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd **01437 77 6322** neu **6325** or **6444** -Y tu allan i oriau gwaith **08708 509508**

Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Honiadau (LADO) **01437 77 6696/6562**



3.0 Ysgrifennu Polisi e-Ddiogelwch Ysgol

3.1 Pam ysgrifennu polisi e-ddiogelwch?

Mae disgyblion yn rhyngweithio â thechnolegau newydd fel ffonau symudol a'r Rhyngwrwyd bob dydd ac yn dod ar draws ystod eang o gyfleoedd, agweddau a sefyllfaoedd. Mae'r cyfleoedd dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a chyfnewid syniadau sydd ar gael o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg sydd ar gael yn wych ond, ar adegau, gallant roi pobl ifanc mewn sefyllfaoedd sy'n peryglu.

Mae angen i ysgolion benderfynu ar y cydbwysedd cywir rhwng rheoli mynediad, gosod rheolau ac addysgu myfyrwyr ynghylch defnydd cyfrifol. Yn ogystal, mae'n rhaid i rieni, llyfrgelloedd a mudiadau ieuenticid ddatblygu strategaethau i sicrhau bod TGCh yn cael ei defnyddio'n ddiogel, yn gyfrifol ac yn hanfodol lle bynnag y gall pobl ifanc fod yn cael at y technolegau hyn.

Lluniwyd yr arweiniad hwn i roi cymorth i ysgolion ynghylch llunio polisi e-ddiogelwch cadarn, ymarferol a chadarnhaol.

Mae e-ddiogelwch yn cynnwys materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, a defnyddio'r Rhyngwrwyd, ffonau symudol a thechnolegau electronig eraill yn ddiogel ganddynt yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae'n cynnwys addysg ynghylch risgiau a chyfrifoldebau ac mae'n rhan o'r 'ddyletswydd gofal' sy'n berthnasol i bawb sy'n gweithio gyda phlant.

Mae deunyddiau ac arweiniad manwl ar e-ddiogelwch ar gael i ysgolion o Lwyfan Dysgu HWB, y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP), Gwasanaeth Cyswllt Ysgolion Heddlu Dyfed Powys, yr NSPCC, Childline, Beat Bullying, y South West Grid for Learning ac asiantaethau eraill.

3.2 Beth yw e-ddiogelwch?

Mae polisi e-ddiogelwch yr Ysgol yn adlewyrchu'r angen i godi ymwybyddiaeth o faterion e-ddiogelwch sy'n gysylltiedig â phob system wybodaeth a chyfathrebu electronig yn gyfan gwbl. Mae e-ddiogelwch yn cynnwys nid yn unig

dechnolegau'r Rhyngwrwyd, ond hefyd cyfathrebiadau electronig fel ffonau symudol a thechnoleg ddiwifwr. Mae'n amlygu'r angen i addysgu plant a phobl ifanc am fanteision, risgiau a chyfrifoldebau defnyddio technoleg gwybodaeth. Mae'n darparu trefniadau diogelu ac yn codi ymwybyddiaeth er mwyn galluogi defnyddwyr i reoli eu profiadau ar-lein mewn ffordd ddiogel a chadarnhaol.

Mae'r Rhyngwrwyd yn sianel gyfathrebu agored, na chaiff ei rheoli. Mae'r we fyd-eang, e-bost, blogiau a rhwydweithio cymdeithasol oll yn trosglwyddo gwybodaeth gan ddefnyddio seilwaith cyfathrebu'r Rhyngwrwyd yn rhyngwladol am gost isel. Gall unrhyw un anfon negeseuon, trafod syniadau a chyhoeddi deunyddiau heb fawr o gyfyngiad. Mae'r nodweddion hyn o'r Rhyngwrwyd yn ei gwneud yn adnodd amhrisiadwy a ddefnyddir gan filiynau o bobl bob dydd.

Caiff llawer o'r deunydd a gyhoeddir ar y Rhyngwrwyd ei gyhoeddi i gynulleidfa o oedolion ac mae rhywfaint ohono'n anaddas i ddisgyblion. Yn ogystal, mae gwybodaeth am arfau, troseddau a hiliaeth, y byddai mynediad ati'n fwy cyfyngedig mewn manau eraill. Rhaid i ddisgyblion ddysgu hefyd fod cyhoeddi gwybodaeth bersonol yn gallu peryglu eu diogelwch a diogelwch pobl eraill.

Mae angen i ysgolion amddiffyn eu hunain rhag her gyfreithiol. Mae'r gyfraith yn dal i fyny â datblygiadau'r Rhyngwrwyd: er enghraifft, mae'n drosedd i storio delweddau sy'n dangos plant yn cael eu cam-drin a defnyddio negeseuon e-bost, testun neu negeseua gwib (IM) i feithrin perthynas amhriodol ar-lein â phlant.

Gall ysgolion helpu i amddiffyn eu hunain trwy ei gwneud hi'n glir i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr bod defnyddio offer yr ysgol am resymau amhriodol "heb ei awdurdodi". Fodd bynnag, dylai ysgolion fod yn ymwybodol nad yw ymwadiad yn ddigon i amddiffyn ysgol rhag hawliad anaf personol ac mae angen i'r ysgol sicrhau ei bod wedi cymryd pob cam rhesymol a'i bod wedi rhoi mesurau ar waith i amddiffyn defnyddwyr.

3.3 Sut ydych chi'n defnyddio templed y polisi?

Bydd athrawon yn gwybod risgiau defnyddio'r Rhyngwrwyd ond efallai na fyddant wedi cael cyfleoedd i'w trafod yn fanwl. Mae templed y polisi yn rhoi strwythur ar gyfer ysgrifennu polisi a deunyddiau'r polisi er mwyn ysgogi ac ehangu'r drafodaeth hanfodol hon.

Pan fyddwch yn ysgrifennu eich polisi, bydd angen ystyried materion addysgol, technegol a materion rheoli. Cyflwynir y rhain ar ffurf cwestiynau gyda thrafodaeth ac amrywiaeth o ddatganiadau awgrymedig. Mae angen ystyried pob cwestiwn a dewis datganiadau fel y bôn yn briodol i gyd-destun yr ysgol neu addasu neu amnewid unrhyw ddatganiad.

Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion o'r farn nad oes ganddynt yr arbenigedd i ysgrifennu eu polisi eu hunain. Mae Cyngor Sir Penfro hefyd wedi cyhoeddi polisiâu craidd ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ar y Porth Addysg a gall y rhain gael eu golygu'n gymharol gyflym i'w cymeradwyo gan reolwyr a llywodraethwyr. Fodd bynnag, ym mhob achos, rhaid ystyried anghenion eich ysgol unigol yn ofalus wrth ddatblygu eich polisi e-ddiogelwch.

Gan fod arweiniad mewn meysydd fel e-bost, rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi yn parhau i ddatblygu, dylai ysgolion hefyd fwrw golwg ar arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi ar Lwyfan Dysgu Cymru Gyfan HWB.

Dylai ysgolion adolygu eu polisi yn rheolaidd a diwygio'r polisi yn flynyddol i adlewyrchu newidiadau a datblygiadau mewn technoleg. Mae'r defnydd o TGCh mewn ysgolion yn newid yn gyflym a gallai fod angen diwygio polisiâu a luniwyd flwyddyn yn ôl yn barod.

3.4 Datganiad o awdurdod

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i adlewyrchu arfer effeithiol, i godi materion ac i gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth arbenigol. Mae nifer o bobl wedi cyfrannu at yr arweiniad hwn, gan gynnwys

Grŵp e-Ddiogelwch Sir Benfro, Heddlu Dyfed-Powys, a Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Yn ogystal, ymgynghorwyd ag asiantaethau cenedlaethol fel HWB a CEOP a chyfeirir at eu deunyddiau nhw.

Trwy'r arweiniad hwn, mae'r Awdurdod yn cyflwyno datganiad cryf ynghylch y trefniadau y mae'n disgwyl i ysgolion eu rhoi ar waith i amddiffyn disgyblion. Bydd ysgolion sy'n seilio'u polisiâu e-ddysgu ar yr arweiniad hwn yn gallu dangos yn haws eu bod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu hamddiffyn.

Ysgolion sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am e-ddiogelwch a rhaid iddynt ystyried y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon. Argymhellir cynnal archwiliad e-ddiogelwch, efallai gan ddefnyddio arbenigedd allanol, i helpu sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd.

Wrth reswm, nid polisi e-ddiogelwch eich ysgol yw'r ddogfen hon. Dylai'r pennaeth ysgrifennu'r polisi hwnnw gan ymgynghori â staff perthnasol ar ôl adolygu'r ddogfen hon, darllen y deunydd cyfeirio a thrafod beth sy'n briodol yn eich ysgol chi.

3.5 Cyfrifoldebau staff yr ysgol

Mae technolegau gwybodaeth yn datblygu'n gyflym ac, o ganlyniad, gall staff fod yn ansicr ynghylch arfer gorau neu sut i drafod materion e-ddiogelwch gyda disgyblion. Gellir cael cyngor a hyfforddiant gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion neu Ymgynghorwyr TG Ysgolion Sir Benfro.

Mae'r ymddiriedaeth rhwng disgyblion a staff ysgol yn hanfodol ar gyfer addysgu ond, yn achlysurol iawn, gall disgyblion deimlo'n anghyfforddus yn trafod rhai materion gyda staff. Nid yw hyn yn newydd, ond mae'n fwy amlwg yn sgil mwy o ymwybyddiaeth o fethiannau pobl a mwy o barch tuag at blant. Yn genedlaethol, mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu CEOP i "ddiogelu profiadau ar-lein plant a dod o hyd i droseddwyd a'u herlid yn ddygn".

Mewn diwydiant ac, yn wir, yng Nghyngor Sir Penfro, mae aelod staff sy'n diystyru cyngor ynghylch diogelwch, neu'n defnyddio'r e-bost neu'r Rhynggrwyd am resymau amhriodol, mewn perygl o wynebu camau disgyblu.

Dylai pob aelod staff lofnodi Cytundeb Defnydd Derbyniol adeg ei benodi. Trwy hynny, bydd staff yn derbyn bod yr ysgol yn gallu monitro'r defnydd o'r rhwydwaith a'r Rhynggrwyd er mwyn helpu i sicrhau diogelwch staff a disgyblion.

Mae cryn gyfrifoldeb gan staff sy'n rheoli systemau hidlo neu'n monitro'r defnydd ar TGCh, a rhaid eu goruchwyllo'n briodol. Rhaid i weithdrefnau ddiffinio sut mae defnydd amhriodol neu anghyfreithlon o TGCh yn cael ei adrodd i uwch reolwyr. Rhaid i staff fod yn ymwybodol o'r peryglon i'w hunain wrth reoli'r defnydd ar TGCh, er enghraifft wrth edrych ar ddelweddau amhriodol er mwyn ymchwilio i'w ffynhonnell, a sicrhau bod trefniadau diogelu ar waith i'w hamddiffyn eu hunain.

Rhaid rhoi gwybod i uwch reolwyr am unrhyw honiad o ymddygiad amhriodol a rhaid ymchwilio i'r honiad yn unol ag Adran 2 'Ymateb i Ddigwyddiad sy'n Destun Pryder'.

3.6 Cyfrifoldebau'r ysgol

- Mae Cyngor Sir Penfro yn disgwyl i ysgolion benodi uwch aelod staff â swyddogaeth e-ddiogelwch.
- Mae'n hanfodol bod pob aelod staff mewn ysgolion yn dilyn y Polisi ar Gyfathrebu Electronig a Chyfyngau Cymdeithasol (gweler Adran 5).
- Dylai adroddiad y pennaeth i'r corff llywodraethol gynnwys crynodeb o weithgarwch e-ddiogelwch, gan gynnwys diweddariadau ynghylch polisi, arfer, hyfforddiant a digwyddiadau yn ymwneud ag e-ddiogelwch.
- Dylai'r swyddog e-ddiogelwch gynnal y polisi e-ddiogelwch, rheoli cymorth e-ddiogelwch a chadw i fyny ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth e-ddiogelwch cenedlaethol a lleol.
- Dylai ysgolion adolygu eu polisi'n rheolaidd a diwygio eu polisi'n flynyddol i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ystyried unrhyw dechnolegau sy'n dod i'r amlwg.
- Dylai ysgolion archwilio eu systemau hidlo'n rheolaidd i sicrhau bod gwefannau amhriodol yn cael eu rhwystro. Mewn ysgolion cynradd, gwneir hyn ar y cyd â'r Ymgynghorydd TG ar gyfer ysgolion cynradd a Gwasanaethau TG Sir Benfro.
- I sicrhau bod disgyblion a staff yn cadw at y polisi, dylid ymchwilio i unrhyw achosion o gamddefnydd posibl.
- Dylai ysgolion sicrhau bod e-ddiogelwch yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bod pob disgybl wedi cael gwybodaeth dda ynghylch defnydd diogel a chyfrifol. Mae angen i ddisgyblion wybod sut i reoli a lleihau risgiau ar-lein cymaint â phosibl a sut i roi gwybod am broblem.
- Rhaid i'r holl staff ddarllen a llofnodi'r Polisi Defnydd Derbyniol ar gyfer Staff / y Polisi Corfforaethol ar gyfer staff.
- Dylai'r polisi e-ddiogelwch fod ar gael i'r holl staff, llywodraethwyr, rhieni ac ymwelwyr.
- Dylai pob ysgol sicrhau bod disgyblion yn ymwneud ag e-ddiogelwch trwy ethol hyrwyddwyr e-ddiogelwch o blith y disgyblion, a fydd yn hybu e-ddiogelwch ac yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu arfer gorau. Mae arddangos posteri a luniwyd gan y disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth yn un dull defnyddiol ac mae llawer o ysgolion yn cynnwys canllawiau e-ddiogelwch mewn Llyfrau Cyswllt yr Ysgol a'r Cartref.

4.0 Datblygu Polisi e-Ddiogelwch

4.0 Datblygu Polisi E-Ddiogelwch

Fformat y ddogfen: Mae cwestiwn yn gwahodd trafodaeth yna datganiadau arweiniad argymelledig i ysgolion eu defnyddio i baratoi eu polisi e-ddiogelwch.

Mae'r detholiad yn bwysig gan fod datganiadau'n ymdrin ag amrywiaeth eang o sefyllfaoedd a gallai rhai ohonynt fod yn amhriodol i'ch ysgol chi. Wrth reswm, gall ysgolion olygu'r datganiadau neu eu newid am eu datganiadau eu hunain.

4.1 Pwy fydd yn ysgrifennu ac yn adolygu'r polisi?

Trafodaeth: Mae'r polisi e-ddiogelwch yn rhan o'r polisi TGCh a Chynllun Datblygu'r Ysgol a dylai fod yn perthyn i bolisiau eraill, gan gynnwys polisiau yn ymwneud ag ymddygiad, addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol, a dinasyddiaeth. Mae llunio polisi yn cynnig dull o adolygu arfer, sef defnyddio technoleg bwysig a'i manteision a'i risgiau yn yr achos hwn. Y mwyaf y mae staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion yn rhan o benderfynu ar y polisi, y mwyaf effeithiol y bydd y polisi.

Datganiadau posibl:

- Bydd yr ysgol yn penodi aelod staff dynodedig â swyddogaeth e-ddiogelwch. Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag aelod staff â rôl amddiffyn plant.
- Bydd y polisi e-ddiogelwch a'i weithredu'n cael eu hadolygu'n flynyddol.

Dylai polisi e-ddiogelwch yr ysgol gael ei ysgrifennu gan yr ysgol, yn adeiladu ar ganllawiau polisi e-ddiogelwch Sir Benfro ac arweiniad y llywodraeth. Mae'r uwch reolwyr wedi cytuno ar y polisi ac mae llywodraethwyr yr ysgol wedi ei gymeradwyo.

4.2 Addysgu a dysgu

4.2.1 Pam mae defnyddio'r rhyngwrwyd mor bwysig?

Trafodaeth: Mae'r datblygiadau cyflym mewn cyfathrebiadau electronig yn cael llw o effeithiau, rhai ohonynt yn ddwys, ar gymdeithas. Dim ond deng mlynedd yn ôl, roeddem yn gofyn a ddylai'r rhyngwrwyd gael ei defnyddio ym mhob ysgol. Nawr, mae pob disgybl yn iau na'r we fyd-eang yn ac mae llawer ohonynt yn ei defnyddio'n fwy na'u hathrawon. Serch hynny, mae'n bwysig datgan beth rydym ni'n ceisio'i gyflawni mewn addysg trwy ddefnyddio TGCh a'r rhyngwrwyd.

Datganiadau posibl:

- Diben defnyddio'r rhyngwrwyd yn yr ysgol yw codi safonau addysg, hybu cyflawniad disgyblion, cefnogi gwaith proffesiynol staff ac ymestyn swyddogaethau rheoli'r ysgol.
- Mae defnyddio'r rhyngwrwyd yn rhan o'r cwricwlwm statudol ac mae'n gyfrwng angenrheidiol ar gyfer dysgu.
- Mae mynediad i'r rhyngwrwyd yn hawl i fyfyrwyr sy'n dangos ymagwedd gyfrifol ac aeddfed tuag at ei defnyddio.
- Mae'r Rhyngwrwyd yn elfen hanfodol ym mywyd yr 21ain ganrif ar gyfer addysg, busnes a rhyngweithio cymdeithasol. Mae gan yr ysgol ddyletswydd i ddarparu mynediad o safon i'r rhyngwrwyd i fyfyrwyr fel rhan o'u profiad dysgu.
- Mae disgyblion yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn helaeth y tu allan i'r ysgol a bydd angen iddynt ddysgu sut i werthuso gwybodaeth ar y rhyngwrwyd a gofalu am eu diogelwch eu hunain.

4.2.2 Sut mae defnyddio'r rhyngwrwyd o fudd i addysg?

Trafodaeth: Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cychwyn rhaglen i ddarparu cysylltiad band eang â'r rhyngwrwyd trwy Rwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru a, thrwy ei dogfen Y Wlad sy'n Dysgu, mae wedi nodi'r manteision sydd i'w cael drwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn briodol.

Datganiadau posibl:

Mae manteision defnyddio'r rhyngwrwyd mewn addysg yn cynnwys:

- mynediad at adnoddau addysgol byd-eang gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau celf;
- cynnwys yn Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru sy'n cysylltu pob ysgol yng Nghymru;
- cyfnewidiadau addysgol a diwylliannol rhwng disgyblion yn fyd-eang;
- defnydd galwedigaethol, cymdeithasol a hamdden mewn llyfrgelloedd, clybiau a gartref;
- y gallu i ddisgyblion a staff gael at arbenigwyr mewn sawl maes;
- datblygiad proffesiynol i staff trwy fynediad at ddatblygiadau cenedlaethol, deunyddiau addysgol ac arfer effeithiol y cwricwlwm;
- cydweithredu ar draws gwasanaethau cymorth a chymdeithasau proffesiynol;
- mynediad gwell at gymorth technegol gan gynnwys rheoli rhydweddiadau o bell a diweddarau systemau yn awtomatig;
- cyfnewid data gweinyddol a data am y cwricwlwm gyda'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru;
- mynediad at ddysgu ble bynnag a phryd bynnag y bo'n gyfleus.

4.2.3 Sut gall defnyddio'r Rhyngwrwyd ymestyn dysgu?

Trafodaeth: Gallai nifer uwch o gyfrifiaduron gael ei ddarparu neu gallai'r mynediad i'r rhyngwrwyd gael ei wella, ond rhaid mynd i'r afael â deilliannau dysgu hefyd. Mae'n hanfodol datblygu arfer effeithiol wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd at ddiben addysgu a dysgu. Gall llyfrgellwyr ac athrawon helpu disgyblion i ddysgu sut i gael ystyr o'r toreth o wybodaeth a ddarperir gan y rhyngwrwyd.

Yn aml, bydd faint o wybodaeth sydd ar gael yn llethol a gall staff arwain disgyblion at wefannau priodol neu addysgu sgiliau chwilio. Mae cynnig ychydig safleoedd da i ddisgyblion iau yn aml yn fwy effeithiol na chwilio'r rhyngwrwyd. Yn anad dim, mae angen i bob disgybl ddysgu gwerthuso popeth y mae'n ei ddarllen a mireinio ei gyhoeddiadau a'i gyfathrebiadau ag eraill drwy'r rhyngwrwyd.

Datganiadau posibl:

- Bydd mynediad i'r rhyngwrwyd yn yr ysgol yn cael ei lunio'n benodol at ddefnydd disgyblion a bydd yn cynnwys hidlo sy'n briodol i oedran y disgyblion.
- Dylai staff arwain disgyblion wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein a fydd yn ategu'r deilliannau dysgu a fwriedir ar gyfer oedran ac aeddfedrwydd y disgyblion.
- Bydd disgyblion yn cael arweiniad clir ar ba ddefnydd o'r rhyngwrwyd sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol a byddant yn cael amcanion clir ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwyd.
- Bydd mynediad at y rhyngwrwyd yn cael ei gynllunio er mwyn cyfoethogi ac ymestyn gweithgareddau dysgu. Bydd lefelau mynediad yn cael eu hadolygu i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm ac oedran y disgyblion.
- Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu ynghylch defnyddio'r rhyngwrwyd yn effeithiol wrth wneud ymchwil, gan gynnwys sgiliau lleoli, adalw a gwerthuso gwybodaeth.

4.2.4 Sut bydd disgyblion yn dysgu sut i werthuso cynnwys y rhyngwrwyd?

Trafodaeth: Mae lledaenu sion maleisus wedi bod yn digwydd ers miloedd o flynyddoedd ac mae gwybodaeth a geir drwy'r rhyngwrwyd, e-bost neu neges testun yn galw am sgiliau trafod gwybodaeth da. Yn benodol, gall fod yn anodd pennu tarddiad a chywirdeb gwybodaeth, oherwydd gallai'r cliwiau am gyd-destun sy'n bresennol yn achos llyfrau neu'r teledu fod ar goll neu'n anodd eu darllen. Mewn byd perffaith, ni fyddai'n bosibl i ddisgyblion sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd weld deunyddiau amhriodol, ond nid yw'n hawdd cyflawni hyn ac ni ellir ei sicrhau. Mae'n ffaith drist y bydd disgyblion weithiau'n gweld deunydd amhriodol, er gwaethaf pob ymdrech i hidlo'r deunydd. Dylid addysgu disgyblion ynghylch beth i'w wneud os byddant yn gweld deunydd sy'n atgas, anghyfforddus neu'n fygythiol iddynt. Yn fwy aml, bydd disgyblion yn barnu deunydd rhesymol ond bydd angen iddynt ddewis rhannau perthnasol.

Dylai disgyblion gael eu haddysgu ynghylch technegau ymchwil, gan gynnwys defnyddio catalogau pwnc a chwilotwyr a dylid eu hannog i gwestiynu dilysrwydd, cyfredoldeb a tharddiad gwybodaeth. Mae sgiliau allweddol yn ymwneud â thrafod gwybodaeth yn cynnwys sefydlu enw'r awdur, dyddiad diwygio a ph'un a yw pobl eraill yn cysylltu â'r safle. Dylai disgyblion gymharu deunydd o'r we â ffynonellau eraill.

Mae'n bosibl y bydd angen mynediad at safleoedd sensitif, er enghraifft y rhai sy'n cofnodi'r Holocost neu safleoedd yn ymwneud â materion ABCh, wrth i weithgarwch addysgol penodol gan ddisgyblion oedran priodol, wedi'u goruchwylio, fynd yn ei flaen. Gall system hidlo'r Sir (sef RM ar hyn o bryd) roi mynediad dros dro i safleoedd penodol sy'n angenrheidiol at ddiben penodol ym marn yr athro.

Dylid addysgu parch tuag at hawlfraint a hawliau eiddo deallusol, a'r defnydd cywir o ddeunydd cyhoeddedig.

Datganiadau posibl:

- Bydd yr ysgol yn sicrhau bod copio a defnydd dilynol o ddeunyddiau a ddaeth o'r rhyngwrwyd gan staff a disgyblion yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint.

Bydd angen addasu'r datganiadau canlynol yn ôl oedran y disgyblion:

- Dylid addysgu disgyblion i fod yn ymwybodol yn feirniadol o'r deunyddiau y maent yn eu darllen a dangos iddynt sut i ddilysu gwybodaeth cyn derbyn ei chywirdeb.
- Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu i gydnabod ffynhonnell y wybodaeth a ddefnyddir ac i barchu hawlfraint wrth ddefnyddio deunydd o'r Rhyngwrwyd yn eu gwaith eu hunain.
- Mae gwerthuso deunyddiau ar-lein yn rhan o bob pwnc.

4.3 Rheoli Systemau Gwybodaeth

4.3.1 Sut caiff diogelwch systemau gwybodaeth ei gynnal?

Trafodaeth: Mae'n bwysig adolygu diogelwch y system gyfan, o'r defnyddiwr i'r rhyngwrwyd. Dyma gyfrifoldeb mawr sy'n cynnwys nid dim ond cyflwyno gwasanaethu dysgu hanfodol ond diogelwch personol staff a disgyblion hefyd.

Mae diogelwch TGCh yn fater cymhleth na ellir mynd i'r afael ag ef yn ddigonol yn y ddogfen hon. Gall nifer o asiantaethau roi cyngor ynghylch diogelwch, gan gynnwys Becta. Gall polisi diogelwch TG Sir Benfro ddylanwadu ar eich polisi chi hefyd.

Mae materion yn ymwneud â diogelwch Rhwydwaith Ardal Leol yn cynnwys:

- Rhaid i ddefnyddwyr ymddwyn yn rhesymol – e.e. bydd lawrlwytho ffeiliau mawr yn ystod y diwrnod gwaith yn effeithio ar y gwasanaeth a gaiff pobl eraill.

- Rhaid i ddefnyddwyr gymryd cyfrifoldeb am eu defnydd o'r rhwydwaith. Yn achos staff Cyngor Sir Penfro, mae anwybyddu'r polisi defnydd electronig yn cael ei ystyried yn fater sy'n destun camau disgyblu, a allai arwain at ddiswyddo yn y pen draw.
- Dylid diogelu gweithfannau yn erbyn camgymeriadau a gweithredoedd bwriadol gan ddefnyddwyr.
- Rhaid lleoli gweinyddwyr yn ddiogel a chyfyngu ar allu pobl i gael atynt.
- Rhaid cadw system weithredu'r gweinydd yn ddiogel ac yn gyfredol.
- Rhaid gosod meddalwedd amddiffyn rhag firysau ar gyfer y rhwydwaith cyfan a rhaid iddi fod yn gyfredol.
- Rhaid rheoli mynediad gan ddyfeisiau diwifr yn rhagweithiol.

Mae materion yn ymwneud â diogelwch Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) yn cynnwys:

- Dylai pob cysylltiad â'r rhyngwyd gael ei drefnu trwy Rwydwaith y Sir i roi lefel briodol o ddiogelwch.
- Gwneir penderfyniadau ynghylch diogelwch y WAN ar sail partneriaeth rhwng yr ysgol a Chyngor Sir Penfro. Lle y darperir mynediad allanol i systemau ysgol, rhaid i ysgolion sicrhau bod systemau'n cael eu diweddarau i osgoi peryglu diogelwch y rhwydwaith.

Materion yn ymwneud â diogelwch Rhwydweithio Di-wifr

Mae Rhwydweithio Di-wifr (a elwir hefyd yn WiFi) yn dechnoleg sy'n caniatáu i rwydweithiau gael eu creu heb osod ceblau.

Mae nifer y pwyntiau mynediad di-wifr (WAP) yn ysgolion Sir Benfro yn cynyddu. Mae WAP yn peri risg gynyddol i gyfanrwydd rhwydwaith unigol yr ysgol a chyfanrwydd gwasanaeth rhyngwyd Ysgolion Sir Benfro.

Mae pryderon ynghylch diogelwch y dechnoleg wedi galw ar i lywodraeth ganolog gynnal mwy o ymchwil. Yn ogystal, mae Pwyllgor Craffu ar Addysg Cyngor Sir Penfro wedi trafod dogfen God Ymarfer a fydd yn cael ei llunio gan yr Awdurdod i roi arweiniad ychwanegol i ysgolion ar ddefnyddio technoleg di-wifr. I gael mwy o wybodaeth am y ddogfen hon, neu i drafod y defnydd o dechnoleg ddiwifr yn eich ysgol, cysylltwch â: Adryan Jones, Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Ysgolion (01267 224765).

Datganiadau posibl:

- Bydd diogelwch systemau gwybodaeth yr ysgol yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Bydd amddiffyniad rhag firysau'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- Bydd strategaethau cynnal wrth gefn (gan gynnwys gofynion all-lein ac oddi ar y safle) yn cael eu hystyried a'u paru â gofynion yr ysgol o ran adfer yn achos argyfwng.
- Bydd strategaethau diogelwch yn cael eu trafod gyda Chyngor Sir Penfro lle y bo'n briodol.
- Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos â Chyngor Sir Penfro i sicrhau e-ddiogelwch a chyfanrwydd unrhyw system ddiwifr a ddefnyddir neu a osodir yn yr ysgol.
- Bydd data personol a anfonir dros y rhyngwyd yn cael ei amgryptio neu ei ddiogelu fel arall.
- Ni chaiff cyfryngau cludadwy eu defnyddio heb ganiatâd penodol ac archwiliad firysau.
- Ni chaniateir cyfleusterau system a ffeiliau gweithredadwy heb eu cymeradwyo yn ardaloedd gwaith disgyblion na bod ynghlwm wrth e-bost.
- Bydd ffeiliau a gedwir ar rwydwaith yr ysgol yn cael eu gwirio'n rheolaidd.
- Bydd y cydlynnydd TGCh / rheolwr y rhwydwaith yn adolygu capasiti'r system yn rheolaidd.

4.3.2 Sut caiff e-bost ei reoli?

Trafodaeth: Mae e-bost yn ddull defnyddiol o gyfathrebu, i staff a disgyblion. Gall e-bost cyfeiriedig ddod â buddion addysgol sylweddol a gellir creu prosiectau difyr rhwng ysgolion mewn pentrefi cyfagos ac mewn cyfandiroedd gwahanol.

Mae angen ystyried goblygiadau'r defnydd o e-bost i'r ysgol ac i'r disgyblion a rhaid rhoi mesurau e-ddiogelwch priodol ar waith. Gall e-bost anrheoledig gynnig llwybrau i ddisgyblion sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau traddodiadol yr ysgol.

Mae graddfa'r cyfrifoldeb y gellir ei dirprwyo i ddisgyblion unigol yn gwestiwn canolog. Pan fydd e-bost ar gael, mae'n anodd ei rheoli. Mae system gwebost y Sir ar gyfer ysgolion cynradd yn cynnig y posibilrwydd o gyfyngu ar gyfathrebu drwy'r e-bost i gyfeiriadau yn yr ysgol.

Yng nghyd-destun yr ysgol, ni ddylid ystyried bod e-bost yn breifat ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion a llawer o gwmnïau yn cadw'r hawl i fonitro'r e-bost.

Ni ddylai fod modd dweud pwy yw disgybl o gyfeiriad e-bost. Yn achos ysgolion cynradd, mae cyfeiriadau e-bost dosbarth cyfan neu ar gyfer prosiectau, wedi'u cysylltu ag aelod staff penodol (a'u safoni gan yr aelod staff) yn hawdd eu defnyddio a'u monitro. Mae gan lawer o bobl ifanc yn eu harddegau eu cyfrifon e-bost eu hunain, fel Hotmail ar y we, a defnyddiant y rhain yn helaeth y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn atal disgyblion rhag defnyddio cyfeiriadau e-bost drwy'r we, yn enwedig gan fod enwau heb wybodaeth adnabod, fel jj444@mailhost.com, yn gwneud monitro yn anodd. Mae strategaethau'n cynnwys cyfyngu disgyblion i gyfrifon e-bost ar barth yr ysgol neu gyfyngu ar draffig e-bost i barth yr ysgol.

Mae sbam, potsian ac atodiadau sy'n cynnwys firsau yn gallu gwneud yr e-bost yn beryglus. Mae pyrth negeseuon Cyngor Sir Penfro yn defnyddio Mailscanner i atal post anaddas.

Datganiadau posibl:

- Dim ond cyfrifon e-bost cymeradwy y caiff disgyblion eu defnyddio yn yr ysgol.
- Rhaid i ddisgyblion ddweud wrth athro ar unwaith os ydynt yn cael e-bost tramgwyddus.
- Ni ddylai disgyblion ddatgelu manylion personol amdanynt eu hunain neu bobl eraill mewn cyfathrebiadau e-bost, na threfnu cwrdd ag unrhyw un heb ganiatâd penodol.
- Dylai cyfeiriadau e-bost grŵp neu ddosbarth cyfan, wedi'u safoni gan athro, gael eu defnyddio mewn ysgolion cynradd.
- Gallai mynediad yn yr ysgol at gyfrifon e-bost personol allanol gael ei atal.
- Gall defnydd cymdeithasol gormodol o'r e-bost ymyrryd â dysgu ac mae'n bosibl y caiff ei gyfyngu.
- Dylid ysgrifennu negeseuon e-bost a anfonir at sefydliadau allanol yn ofalus a'u hawdurdodi cyn eu hanfon, yn yr un modd â llythyr wedi'i ysgrifennu ar bapur pennawd yr ysgol.
- Ni chaniateir anfon llythyron cadwyn ymlaen.

4.3.3 Sut caiff cynnwys wedi'i gyhoeddi ei reoli?

Trafodaeth: Mae llawer o ysgolion wedi creu gwefannau sy'n ysbrydoli disgyblion i gyhoeddi gwaith o safon uchel. Gall gwefannau ddathlu gwaith disgyblion, hyrwyddo'r ysgol a chyhoeddi adnoddau ar gyfer prosiectau. Bydd arweiniad golygyddol yn helpu i adlewyrchu gofynion yr ysgol am gywirdeb a chyflwyniad da.

Dylai cyhoeddi gwybodaeth gael ei ystyried o safbwynt diogelwch personol a diogelwch yr ysgol. Mae'n bosibl y byddai'n well cyhoeddi deunyddiau fel rhestrau staff neu gynllun ysgol yn llawlyfr yr ysgol neu ar ran diogel o'r wefan y mae angen dilysu er mwyn ei gyrraedd.

Datganiadau posibl:

- Dylai'r manylion cyswllt ar y wefan gynnwys cyfeiriad yr ysgol, ei chyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Ni ddylid cyhoeddi gwybodaeth bersonol am staff na disgyblion.
- Bydd y pennaeth yn ymgymryd â chyfrifoldeb golygyddol cyffredinol a sicrhau bod cynnwys yn gywir a phriodol.
- Dylid cyhoeddi cyfeiriadau e-bost yn ofalus, er mwyn osgoi casglu cyfeiriadau at ddibenion sbam.
- Dylai'r wefan gydymffurfio â chanllawiau'r ysgol ar gyfer cyhoeddiadau, gan gynnwys parch tuag at hawliau eiddo deallusol a hawlfraint.

4.3.4 A all gwaith disgyblion neu ddelweddau ohonynt gael eu cyhoeddi?

Trafodaeth: Mae delweddau a seiniau llonydd a symudol yn ychwanegu bywiogrwydd a diddordeb at gyhoeddiad, yn enwedig pan y gellir cynnwys disgyblion. Serch hynny, diogelwch staff a disgyblion sydd bwysicaf. Yn anffodus, er ei fod yn gyffredin mewn papurau newydd, nid yw'n dderbyniol cyhoeddi enwau disgyblion gyda lluniau ohonynt. Mae strategaethau'n cynnwys defnyddio delweddau cymharol fach o grwpiau o ddisgyblion ac efallai hyd yn oed defnyddio lluniau nad ydynt yn dangos wynebau o gwbl. Gellir rhoi hunanbortreadau neu luniau o waith disgyblion neu weithgaredd tîm yn lle ffotograffau personol. Wrth gwrs, dylai disgyblion mewn ffotograffau fod wedi'u gwisgo'n briodol.

Ni ddylid cyhoeddi lluniau o ddisgybl heb ganiatâd ysgrifenedig y rhiant neu'r gofalwr. Mae rhai ysgolion yn gofyn caniatâd i gyhoeddi lluniau o waith neu ffotograffau personol priodol unwaith y flwyddyn, mae ysgolion eraill yn gofyn ar adeg eu defnydd.

Datganiadau posibl:

- Bydd lluniau sy'n cynnwys disgyblion yn cael eu dewis yn ofalus. Ni ddylai testun cysylltiedig alluogi i ddisgyblion unigol gael eu henwi'n glir.

- Ni chaiff enwau disgyblion eu defnyddio yn unman ar y wefan, mewn perthynas â'r ffotograffau.
- Gofynnir am ganiatâd ysgrifenedig rhieni neu ofalwyr cyn i ddelweddau o blant gael eu cyhoeddi'n electronig.
- Ni all gwaith gael ei gyhoeddi heb ganiatâd y disgybl a'r rhieni.

Gweler safle Becta, 'defnyddio delweddau ffotograffig o blant' ac adnoddau e-ddiogelwch Porth Sir Benfro.

4.3.5 Sut caiff rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol eu rheoli?

Trafodaeth: Mae angen i rieni ac athrawon fod yn ymwybodol bod gan y Rhyngwrld rwydweithiau cymdeithasol a lleoliadau ar-lein sy'n dod i'r amlwg ac sy'n caniatáu i unigolion gyhoeddi cynnwys heb ei gyfryngu. Gall safleoedd rhwydweithio cymdeithasol gysylltu pobl â diddordebau tebyg neu diddordebau gwahanol iawn. Gall gwsteion gael eu gwahodd i edrych ar leoliadau personol a gadael sylwadau, ac efallai mai rheolaeth gyfyngedig fydd drostynt.

Dylid annog disgyblion i feddwl am ba mor hawdd yw hi i lanlwytho gwybodaeth bersonol a pha mor amhosibl y byddai cael gwared ar ffotograff amhriodol neu gyfeiriad pe byddai wedi'i gyhoeddi.

Mae enghreifftiau'n cynnwys: blogiau, wicis, Facebook, Lle ar y We Windows Live, byrddau bwletin, chwarae gemau ar-lein gyda chwaraewyr lluosog, ystafelloedd sgwrsio, negeseua gwib ac enghreifftiau niferus eraill.

Datganiadau posibl:

- Bydd yr ysgol yn rhwystro / hidlo mynediad at safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. (Ar hyn o bryd, mae gwasanaeth hidlo Sir Benfro yn rhwystro mynediad at lawer o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gan ysgolion gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw safleoedd eraill y maent yn dymuno eu hidlo / rhwystro)

- Bydd fforymau amhriodol (fel grwpiau newyddion) yn cael eu rhwystro.
- Bydd disgyblion yn cael cyngor i beidio byth â rhoi manylion personol o unrhyw fath a allai alluogi rhywun i'w hadnabod nhw a / neu eu lleoliad. Byddai enghreifftiau'n cynnwys enw go iawn, cyfeiriad, rhif ffôn symudol neu rif ffôn tir, ysgol, cyfeiriadau negeseua gwib ac e-bost, enwau llawn ffrindiau, diddordebau penodol a chlybiau ac ati.
- Dylai'r ysgol sicrhau bod canllawiau'r staff ar gyfer defnyddio ffonau symudol, e-bost a rhwydweithio cymdeithasol fel y'u hamlinellir ym Mholisi Cyfathrebu Electronig a Chyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Staff Ysgol (yn Adran 5.0) yn cael eu mabwysiadu fel rhan o bolisi'r ysgol ar ddiogelwch y rhyngwyd neu fel polisi defnydd derbynol ar wahân ar gyfer y staff.
- Dylid cynghori disgyblion i beidio â rhoi ffotograffau personol ar unrhyw ofod rhwydweithio cymdeithasol. Dylent ystyried pa mor gyhoeddus yw'r wybodaeth ac ystyried defnyddio ardaloedd preifat. Dylid rhoi cyngor ynghylch manylion cefndir mewn ffotograff a allai ddweud pwy yw'r myfyriwr neu roi ei leoliad/lleoliad e.e. rhif ttŷ, enw stryd neu ysgol.
- Dylai blogiau neu wicis swyddogol athrawon gael eu diogelu gan gyfrinair a'u cynnal o wefan yr ysgol. Dylid cynghori athrawon i beidio â chynnal lleoedd rhwydweithio cymdeithasol i fyfyrwyr eu defnyddio yn bersonol.
- Dylid cynghori disgyblion ynghylch diogelwch a'u hannog i osod cyfrineiriau, atal unigolion anhysbys rhag cael mynediad a rhoi cyfarwyddyd iddynt ar sut i rwystro cyfathrebiadau dieisiau. Dylid annog myfyrwyr i wahodd ffrindiau hysbys yn unig ac atal mynediad i bobl eraill.
- Dylid cynghori disgyblion i beidio â chyhoeddi meddyliau preifat penodol a manwl.
- Dylai ysgolion gofio bod bwlio yn gallu digwydd trwy rwydweithio cymdeithasol, yn enwedig pan fydd lle wedi'i sefydlu heb gyfrinair a bod pobl eraill yn cael eu gwahodd i weld sylwadau'r bwli.

4.3.6 Sut caiff hidlo ei reoli?

Trafodaeth: *Bydd lefelau mynediad at y rhyngwyd a lefelau goruchwyllo yn amrywio yn ôl oedran a phrofiad y disgybl. Dylid cynllunio mynediad i'r rhyngwyd at ddefnydd myfyrwyr, ond dylai ddarparu ar gyfer holl aelodau cymuned yr ysgol cymaint ag y bo hynny'n bosibl yn ddiogel. Mae'n bosibl y bydd ar ddisgyblion uwchradd hŷn angen cael at ddeunyddiau penodol i oedolion fel rhan o brosiect wedi'i oruchwyllo; er enghraifft, gallai testun ar gyfer cwrs neu nofel osodedig gynnwys cyfeiriadau at rywioldeb. Efallai y bydd ar athrawon angen ymchwilio i feysydd gan gynnwys cyffuriau, cyflyrau meddygol, bwlio, hiliaeth ac aflonyddwch. Mewn achosion o'r fath, dylid cydnabod defnydd dilys ac addasu'r cyfyngiadau dros dro, lle bynnag y bo'n bosibl yn ymarferol.*

Mae'r strategaethau technegol sy'n cael eu datblygu i gyfyngu ar fynediad at ddeunydd amhriodol yn disgyn i nifer o fathau sy'n gorgyffwrdd (disgrifir hyn yn gyffredin fel hidlo):

- *Mae strategaethau rhwystro yn atal mynediad at restr o safleoedd anaddas. Mae cynnal y rhestr wedi'u rhwystro yn dasg fawr gan fod safleoedd newydd yn ymddangos bob dydd.*
- *Mae gardd furiau neu "restr caniatáu" yn cyfyngu mynediad i restr o safleoedd cymeradwy. Yn anochel, mae rhestrau o'r fath yn cyfyngu mynediad disgyblion i ystod gul o wybodaeth.*
- *Mae hidlo dynamig yn archwilio cynnwys tudalennau gwe neu negeseuon e-bost am eiriau anaddas. Mae hefyd angen hidlo gwybodaeth sy'n cael ei hanfon, fel chwilladau ar y we.*
- *Mae systemau sgorio yn rhoi sgôr i bob tudalen we ar gyfer cynnwys rhywiol, rhegfeydd, cynnwys treisgar neu gynnwys annerbyniol arall. Gellir gosod porwyr gwe fel eu bod yn gwrthod y tudalennau hyn.*
- *Mae monitro mynediad yn cofnodi'r safleoedd y mae defnyddwyr unigol yn ymweld â nhw ar y rhyngwyd. Bydd ceisio cael mynediad at safle sydd wedi'i atal gan y polisi yn ysgogi adroddiad.*

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Penfro yn defnyddio RM Safetynet mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dyma system safonol y diwydiant a ddefnyddir gan lawer o sefydliadau addysgol ledled y byd.

Mae gan ysgolion uwchradd eu gweinydd hidlo eu hunain ac maent yn rheoli eu polisi hidlo eu hunain i ategu'r rhestr graidd o safleoedd gwaharddedig sy'n cael ei chynnal gan system ganolog Sir Benfro.

Datganiadau posibl

Bydd yr ysgol yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro, gan ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod systemau i amddiffyn disgyblion yn cael eu hadolygu a'u gwella'n rheolaidd.

- Os bydd staff neu ddisgyblion yn darganfod safleoedd anaddas, rhaid rhoi gwybod yr URL i'r swyddog e-ddiogelwch a'i anfon ymlaen at ddesg gymorth TG Sir Benfro i'w ddsbarthu i bob system ysgol.
- Bydd pob mynediad i'r rhyngwrwyd yn yr ysgol yn cael ei gofnodi.
- Bydd y defnydd o'r rhyngwrwyd yn cael ei fonitro ar hap i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi'r ysgol.
- Caiff pob mynediad i'r rhyngwrwyd yn yr ysgol ei hidlo. Mewn amgylchiadau prin, bydd angen dilyn am oresgyn cyfyngiadau technegol trwy ddefnyddio cysylltiad nad yw'n cael ei hidlo. Dylai'r pennaeth awdurdodi'n bersonol pob defnyddiwr y Rhyngwrwyd nad yw'n cael ei hidlo, ac adolygu'r angen am fynediad yn rheolaidd.
- Mae'r ysgol yn defnyddio cyfuniad o fynediad ar ffurf gardd furiau ac wedi'i hidlo, fel y bo'n briodol i oedran, i ategu amcanion pedagogaidd.
- Mae gan bolisi e-ddiogelwch yr ysgol gysylltiad agos â'r polisi disgyblu.
- Mae ysgolion uwchradd yn rheoli ffurfweddiad eu hidlo. Mae'r dasg hon yn gofyn am brofiad addysgol a thechnegol.
- Bydd staff uwch yn sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y dulliau hidlo a ddewiswyd yn rhai priodol, effeithiol a rhesymol.
- Rhaid rhoi gwybod i asiantaethau priodol am unrhyw ddeunydd sy'n anghyfreithlon yn nhyb yr ysgol.

- Bydd addysgwyr yn llunio strategaeth hidlo'r ysgol yn unol â'r hyn sy'n addas ar gyfer oedran a gofynion cwricwlaidd y disgyblion, gyda chyngor gan dechnegwyr ac Ymgynghorwyr TG Sir Benfro.

Hidlo'r rhyngwrwyd yn Sir Benfro -

Ar hyn o bryd, mae hidlo yn Sir Benfro wedi'i seilio ar system RM Safetynet ac, o fis Medi 2014, bydd hon yn cael ei diweddarau i Smoothwall, a fydd yn caniatáu am hidlo'r we yn fwy effeithiol a hyblyg. Mae gan bob ysgol ei system RM Safetynet ei hun. Mae hidlo'n cael ei reoli gan Gyngor Sir Penfro ar gyfer ysgolion cynradd ac yn cael ei reoli gan staff ysgol mewn ysgolion uwchradd. Bob nos, mae Cyngor Sir Penfro yn rhoi rhestr wedi'u diweddarau o safleoedd sydd wedi'i gwahardd i bob ysgol a gall staff technegol perthnasol ychwanegu'n hawdd at y rhestr hon.

Mewn ysgolion uwchradd, mae RM Safetynet yn cynnig tri phroffil posibl ar gyfer pob defnyddiwr (ym mhob achos, bydd mynediad yn cael ei logio am gyfnod penodol):

- Gardd furiau (rhestr wen). Caiff defnyddwyr ganiatâd i ymweld â safleoedd sy'n cael eu 'caniatáu' yn benodol gan yr ysgol.
- Hidlo. Mae RM Safetynet yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i leihau'r posibilrwyd y bydd defnyddwyr yn ymweld â safleoedd amhriodol.
- Heb ei hidlo. Nid yw'r system yn defnyddio unrhyw hidlo.

Mae RM Safetynet yn cynnig amrywiaeth o ddulliau ar gyfer rheoli mynediad i'r Rhyngwrwyd a hysbysu/cefnogi polisi disgyblu'r ysgol. Dylai swyddogion e-ddiogelwch mewn ysgolion uwchradd fod yn gyfarwydd â'r cyfleusterau hyn; mae cyngor a chymorth ar gael oddi wrth Ymgynghorwyr TG Sir Benfro.

4.3.7 Sut caiff fideo-gynadledda ei reoli?

Trafodaeth: Mae fideo-gynadledda yn galluogi defnyddwyr i weld a chlywed ei gilydd rhwng gwahanol leoliadau. Mae'n dechnoleg ryngweithiol 'amser real' ac mae ganddi sawl defnydd mewn addysg.

Mae'r offer yn amrywio o systemau bychain ar gyfer cyfrifiaduron personol (camerâu gwe) i systemau ystafell fawr y gellir eu defnyddio ar gyfer dosbarthiadau cyfan neu ddarlithoedd. Mae'r offer fideo-gynadledda yn defnyddio 'rhwydwaith' i gyfathrebu â'r safle arall.

Yn gyffredinol, mae fideo-gynadledda yn defnyddio rhwydweithiau IP. Bydd pob system fideo-gynadledda fodern sydd wedi'i seilio ar safonau yn cysylltu trwy IP. Fodd bynnag, gall fideo-gynadledda dros y rhyngwrwyd, hyd yn oed gyda chysylltiad band eang, fod yn anrhagweladwy gan ei fod yn rhwydwaith sy'n cael ei rhannu ac ni ellir rheoli ansawdd y gwasanaeth. Dylai ysgolion sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd ar gyfer fideo-gynadledda gofio na chaiff ei rheoli gan un asiantaeth gyfrifol ac nid oes diogelwch cynhenid yn bodoli.

Mae ysgolion â band eang llawn Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru wedi'u cysylltu trwy Rhwydwaith Ysgolion Sir Benfro ac mae ganddynt fynediad i JVCs sy'n galluogi ysgolion i gyfathrebu â lleoliadau allanol eraill. Mae Unedau Rheoli Amlbwynt yn galluogi nifer o ysgolion i gyfathrebu ar yr un pryd, er enghraifft gyda nifer o ffrydiau fideo yr un mewn ffenestr sgrin.

Datganiadau posibl:

Yr offer a rhwydweithio:

- Dylai fideo-gynadledda trwy IP ddefnyddio rhwydwaith Ysgolion Sir Benfro.
- Rhaid diffodd pob offer fideo-gynadledda yn y dosbarth pan na chaiff ei ddefnyddio.
- Dylai offer sy'n gysylltiedig â Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru ddefnyddio system rifo genedlaethol E.164.

- Ni ddylid darparu cyfeiriadau IP allanol i safleoedd eraill.
- Ni ddylid rhoi gwybodaeth gyswllt ar gyfer fideo-gynadledda ar wefan yr ysgol.
- Rhaid cadw'r offer yn ddiogel a'i gadw dan glo, os oes angen, pan na chaiff ei ddefnyddio.

Ni ddylid mynd ag offer fideo-gynadledda'r ysgol o safle'r ysgol heb ganiatâd.

Defnyddwyr:

- Dylai disgyblion ofyn caniatâd yr athro sy'n eu goruchwyllo cyn gwneud neu ateb galwad fideo-gynadledda.
- Dylai fideo-gynadledda gael ei oruchwyllo fel y bo'n briodol i oedran y disgyblion.
- Dylai rhieni a gwarcheidwaid gytuno bod eu plant yn gallu cymryd rhan mewn fideo-gynadledda.
- Dylai cyfrifoldeb am ddefnyddio'r offer fideo-gynadledda y tu allan i amser yr ysgol gael ei sefydlu'n ofalus.
- Dim ond aelodau staff allweddol ddylai gael fynediad at y system fideo-gynadledda, y we neu dudalen reoli o bell arall sydd ar gael ar systemau mwy o faint.
- Dylai manylion mewngofnodi a chyfrineiriau unigryw ar gyfer y gwasanaethau fideo-gynadledda addysgol gael eu rhoi i aelodau staff yn unig a dylid eu cadw'n ddiogel.

Cynnwys:

- Pan gaiff gwers trwy fideo-gynadledda ei recordio, dylai pob safle a phawb sy'n cymryd rhan roi eu caniatâd ysgrifenedig. Dylid rhoi'r rheswm dros recordio a dylai'r holl bartion wybod yn glir bod y fideo-gynhadledd yn cael ei recordio ar ddechrau'r gynhadledd.

- Caiff deunydd wedi'i recordio ei gadw'n ddiogel.
- Os bydd deunyddiau trydydd parti'n cael eu cynnwys, gwiriwch ei bod yn dderbyniol recordio er mwyn osgoi torri ar hawliau eiddo deallusol trydydd parti.
- Mae fideo-gynadledda yn weithgaredd heriol sydd ag amrywiaeth eang o fanteision dysgu. Mae paratoi a gwerthuso yn hanfodol i'r gweithgaredd cyfan.

Dechreuwch drafodaeth gyda'r lleill sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd cyn cymryd rhan mewn fideo-gynhadledd. Os nad yw'n digwydd ar safle'r ysgol, mae'n bwysig gwirio eu bod yn cyflwyno deunydd sy'n briodol i'ch dosbarth.

4.3.8. Sut gellir rheoli technolegau sy'n dod i'r amlwg?

Trafodaeth: Mae llawer o dechnolegau cyfathrebu sy'n dod i'r amlwg yn cynnig y potensial i ddatblygu offer addysgu a dysgu newydd, gan gynnwys cyfathrebiadau symudol, mynediad eang i'r Rhyngwrwyd ac amlygfryngau. Mae angen cynnal asesiad risg ar gyfer pob technoleg newydd a datblygu arfer effeithiol o ran ei defnydd yn y dosbarth. Y peth mwyaf diogel i'w wneud yw atal mynediad hyd nes bod asesiad risg wedi'i gwblhau a'ch bod wedi cael gwybod am ei diogelwch.

Mae ystafelloedd dosbarth rhithwir a chymunedau rhithwir yn ehangu ffiniau daearyddol dysgu. Mae dulliau newydd fel mentora a mynediad gan rieni at sgorau asesiadau yn cael eu harchwilio. Mae e-ddiogelwch ac effeithiolrwydd cymunedau rhithwir ehangach yn dibynnu ar allu ymddiried mewn defnyddwyr a gwybod pwy ydynt. Efallai na fydd hyn yn hawdd, gan fod dilysu tu hwnt i'r ysgol yn gallu bod yn anodd, fel sydd i'w weld mewn safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook. Mae cofrestru unigolion i sefydlu a chynnal manylion adnabod electronig wedi'u dilysu yn rhan bwysig o'r broses.

Mae rhaglenni newydd yn cael eu datblygu'n barhaus, wedi'u seilio ar y rhyngwrwyd, y rhwydwaith ffonau symudol, ar gysylltiadau di-wifr neu ar gysylltiadau isgoch. Gall defnyddwyr fod yn symudol gan ddefnyddio ffôn sydd â mynediad di-wifr i'r rhyngwrwyd. Dylai ysgolion gadw i fyny â thechnolegau newydd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â ffonau symudol a dyfeisiadau llaw, a bod yn barod i ddatblygu strategaethau priodol. Er enghraifft, mae anfon negeseuon testun trwy ffonau symudol yn weithred fynych i lawer o ddisgyblion. Mae cynnwys iaith neu ddelweddau amhriodol mewn negeseuon testun yn anodd i staff ei ddarganfod. Efallai bydd angen atgoffa disgyblion bod defnydd o'r fath yn amhriodol ac yn mynd yn groes i bolisi'r ysgol. Dylid ymdrin â negeseuon testun ymosodol yn unol â pholisi bwlio'r ysgol.

Datganiadau posibl:

- Byddwn yn archwilio technolegau sy'n dod i'r amlwg am eu budd addysgol a chynhelir asesiad risg cyn caniatáu eu defnydd yn yr ysgol.
- Ni chaiff ffonau symudol eu defnyddio yn ystod gwersi nac amser ffurfiol yr ysgol. Mae anfon negeseuon testun ymosodol neu amhriodol wedi'i wahardd.
- Dylai'r ysgol archwilio technolegau cyfathrebu di-wifr, is-goch a Bluetooth a phenderfynu ar bolisi ar eu defnydd yn yr ysgol.
- Bydd ffôn ym mherchenogaeth yr ysgol yn cael ei dosbarthu i staff os oes angen cysylltu â disgyblion.

4.3.9 Sut dylai data personol gael ei amddiffyn?

Trafodaeth: Mae Deddf Diogelu Data 1998 ("y Ddeddf") yn rhoi'r hawl i unigolion wybod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt ac mae'n darparu fframwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrafod yn gywir. Mae'n hybu bod yn agored wrth ddefnyddio gwybodaeth bersonol. O dan y Ddeddf, rhaid i bob sefydliad sy'n prosesu gwybodaeth bersonol (data personol) hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, oni bai eu bod wedi'u heithrio.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol i bawb sy'n trin a thrafod neu sy'n gallu cael at wybodaeth am unigolion. Mae gan bawb yn y gweithle ddyletswydd gyfreithiol i amddiffyn preifatrwydd gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion. Mae'r Ddeddf yn gosod safonau (wyth egwyddor diogelu data), y mae'n rhaid eu bodloni wrth brosesu data personol (gwybodaeth a fydd yn dweud pwy yw unigolyn byw). Hefyd, mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau i'r bobl y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw, h.y. mae hawliau gwrthrych am wybodaeth yn caniatáu i unigolion ddarganfod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt.

Mae'r wyth egwyddor yn datgan y dylai data personol:

- Gael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon
- Cael ei brosesu am resymau penodol
- Bod yn ddigonol, yn berthnasol a ddim yn ormodol
- Bod yn gywir ac yn gyfoes
- Peidio â chael ei gadw'n hwy na'r angen
- Cael ei brosesu yn unol â hawliau unigolion
- Cael ei gadw'n ddiogel
- Cael ei drosglwyddo dim ond i wledydd eraill sydd â mesurau diogelwch addas.

Bydd ysgolion eisoes yn meddu ar wybodaeth am eu hymrwymadau o dan y Ddeddf, ac mae'r adran hon yn eu hatgoffa bod yr holl ddata sy'n galluogi i bobl gael eu hadnabod yn cael ei amddiffyn.

I gael cyngor ac arweiniad ynghylch mynd yn groes i'r Ddeddf, cysylltwch â John Roberts, Swyddog Diogelu Data'r sir:

John Roberts
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP
01437 764551

Bydd polisi Diogelu Data Sir Benfro i'w weld ar www.pembrokeshire.gov.uk

Ffynhonnell wych arall o wybodaeth yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
<http://www.ico.gov.uk/>

Datganiad posibl:

- Caiff data personol ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo a'i ddarparu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

4.4 Penderfyniadau Polisi

4.4.1 Sut caiff mynediad i'r Rhyngwrwyd ei awdurdodi?

Trafodaeth: Dylai'r ysgol ddyrannu mynediad i'r rhyngwrwyd i staff a disgyblion ar sail angen addysgol. Dylai pwy sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd â phwy sydd heb fynediad iddi gael ei ddatgan yn glir. Yn gyffredinol, rhoddir awdurdod yn unigol mewn ysgol uwchradd. Mewn ysgol gynradd, lle caiff y defnydd gan ddisgyblion ei oruchwyllo'n llawn, gellid awdurdodi pob disgybl mewn dosbarth ar ffurf grŵp. Oherwydd rhoddir mynediad i'r rhyngwrwyd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gallai fod yn haws rheoli rhestri o'r rhai nad ydynt yn cael mynediad. Bydd angen caniatâd rhieni ym mhob achos – gellir trefnu'r dasg hon fel rhan o'r Cytundeb rhwng yr Ysgol a'r Cartref.

Datganiadau posibl:

- Bydd yr ysgol yn cynnal cofnod cyfredol o'r holl staff a disgyblion sydd wedi cael mynediad i gyfathrebiadau electronig yr ysgol.
- Rhaid i bob aelod staff ddarllen a llofnodi'r 'Polisi Defnydd Derbyniol gan Staff' cyn defnyddio unrhyw adnodd TGCh yr ysgol.
- Yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2, bydd oedolion yn arddangos ac yn cefnogi mynediad i'r rhyngwrwyd, gyda mynediad at ddeunyddiau ar-lein penodol, cymeradwy, wedi'i oruchwyllo'n uniongyrchol.
- Rhaid i fyfyrwyr uwchradd wneud cais unigol am fynediad i'r rhyngwrwyd, gan gytuno i gydymffurfio â rheolau e-ddiogelwch.
- Gofynnir i rieni lofnodi a dychwelyd ffurflen ganiatâd ar gyfer mynediad i ddisgyblion.
- Bydd rhieni'n cael gwybod y bydd disgyblion yn cael mynediad wedi'i oruchwyllo i'r rhyngwrwyd (mae llythyr enghreifftiol ar gyfer ysgolion cynradd ar gael).

4.4.2 Sut caiff risgiau eu hasesu?

Trafodaeth: *Wrth i lefel ac ehangder y wybodaeth sydd ar gael dryw'r rhyngwrwyd barhau i dyfu, nid yw'n bosibl gochel rhag pob sefyllfa annymunol. Byddai'n ddoeth cynnwys ymwadiad, a rhoddir enghreifftiau yn y datganiadau isod.*

Datganiad posibl:

- Bydd yr ysgol yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael mynediad at ddeunydd priodol yn unig. Fodd bynnag, oherwydd natur gysylltiedig, fyd eang cynnwys y rhyngwrwyd, nid yw'n bosibl rhoi sicrwydd na fydd mynediad at ddeunydd anaddas byth yn digwydd trwy gyfrifiadur yr ysgol. Ni all yr ysgol na Chyngor Sir Penfro dderbyn atebolrwydd am y deunydd yr eir ato, nac unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o ddefnyddio'r rhyngwrwyd.
- Dylai'r ysgol archwilio'r defnydd ar TGCh i bennu a yw'r polisi e-ddiogelwch yn ddigonol a bod gweithrediad y polisi e-ddiogelwch yn briodol.
- Gallai defnyddio systemau cyfrifiadurol heb ganiatâd neu at ddibenion amhriodol gael ei ystyried yn drosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.
- Bydd dulliau o nodi, asesu a lleihau risgiau cymaint â phosibl yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

4.4.3 Sut eir i'r afael â chwynion ynghylch e-ddiogelwch?

Trafodaeth: *Dylai rhieni, athrawon a disgyblion wybod sut i wneud cwyn. Bydd angen gweithredu ar fyrder os gwneir cwyn. Bydd angen pennu ffeithiau'r achos, er enghraifft a ddefnyddiwyd y rhyngwrwyd yn yr ysgol neu'r tu hwnt.*

Gallai athro ddelio â mân dor-rheol. Mae'n bosibl y gallai sefyllfaoedd eraill fod yn ddifrifol a bydd angen amrywiaeth o gosbau, yn gysylltiedig â pholis disgyblu'r ysgol. Rhaid cyfeirio materion sydd efallai'n anghyfreithlon neu'n ymwneud ag amddiffyn plant at yr aelod staff sy'n gyfrifol am faterion Amddiffyn Plant neu e-ddiogelwch ac at y pennaeth. Dylid trafod unrhyw weithgarwch anghyfreithlon gydag Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu lleol.

Gweler adran 2 hefyd: Ymateb i ddigwyddiad sy'n destun pryder

Datganiadau posibl:

- Bydd uwch aelod staff yn ymdrin â chwynion ynghylch camddefnyddio'r rhyngwrwyd.
- Rhaid cyfeirio unrhyw gŵyn am gamddefnydd gan athro at y pennaeth.
- Bydd disgyblion a rhieni'n cael gwybod am y weithdrefn gwyno.
- Bydd angen i rieni a disgyblion weithio mewn partneriaeth â staff i ddatrys materion.
- Cynhelir trafodaethau ag Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â materion a allai fod yn anghyfreithlon.
- Mae cosbau ym mholisi disgyblu'r ysgol yn cynnwys:
 - cyfweliad/cwmsela gan bennaeth y flwyddyn;
 - hysbysu rhieni neu ofalwyr;
 - atal mynediad i'r Rhyngwrwyd neu i gyfrifiaduron am gyfnod.

4.4.4 Sut caiff y rhyngwrwyd ei defnyddio ar draws y gymuned?

Trafodaeth *Mae mynediad i'r rhyngwrwyd ar gael mewn llawer o sefyllfaoedd yn y gymuned leol. Yn ogystal ag yn y cartref, gallai mynediad fod ar gael yn y llyfrgell leol, mewn clwb ieuenctid, canolfan addysg oedolion, neuadd bentref, archfarchnad neu gaffi seiber.*

Yn achos mynediad i'r rhyngwrwyd yn y gymuned, mae cydbwysedd pwysig i'w gyflawni o ran sicrhau mynediad agored i wybodaeth a chynnig amddiffyniad digonol i blant ac eraill y gallai deunydd amhriodol eu tramgwyddo. Mae pob sefydliad yn gyfrifol am ddatblygu mynediad sy'n briodol i'w grwpiau ei hun o gleientiaid a gallai disgyblion sylwi bod y rheolau yn amrywio. Er y gallai polisiâu ac arferion amrywio, mae partneriaid cymunedol yn dilyn yr un cyfreithiau ag ysgolion. Mae'n bosibl y bydd staff yn dymuno trafod safbwyntiau a chymharu polisiâu ag eraill yn y gymuned.

Datganiadau posibl:

- Bydd yr ysgol yn cydweithio â sefydliadau lleoli i sefydlu ymagwedd gyffredin at e-ddiogelwch.
- Bydd yr ysgol yn sensitif i drafferthion yn ymwneud â'r rhyngwrwyd a gaiff disgyblion y tu allan i'r ysgol, e.e. safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, ac yn cynnig cyngor priodol.

4.5 Polisi Cyfathrebiadau

4.5.1 Sut caiff y polisi ei gyflwyno i ddisgyblion?

Trafodaeth: Mae llawer o ddisgyblion yn gyfarwydd iawn â defnyddio ffonau symudol a'r rhyngwrwyd a'r diwylliant hynny ac ystyrir bod eu cynnwys wrth lunio polisi e-ddiogelwch yr ysgol, yn ddelfrydol drwy gyngor yr ysgol, yn arfer da. Oherwydd y bydd amgyffredion disgyblion ynghylch y risgiau yn amrywio, gallai fod angen esbonio neu drafod y rheolau e-ddiogelwch.

Mae Cyngor Sir Penfro wedi llunio poster i enghreifftiol gyda'r rheolau e-ddiogelwch sy'n ymddangos ar Borth Sir Benfro. Bydd poster ym mhob ystafell sydd â chyfrifiadur yn atgoffa disgyblion o'r rheolau e-ddiogelwch lle y defnyddir y cyfrifiaduron.

Dylai'r ffurflen a awgrymir ar gyfer y Cytundeb rhwng yr Ysgol a'r Cartref gael ei hatodi wrth gopi o'r rheolau e-ddiogelwch sy'n briodol i oedran y disgybl.

Mae rhaglenni e-ddiogelwch defnyddiol yn cynnwys y rheiny a ddarperir gan:

- Thinkuknow: ar gael ar hyn o bryd i ddisgyblion cynradd ac uwchradd (www.thinkuknow.co.uk/)
- Childline / NCH / Wisekids
- Canllaw 'Stay Safe' CBBC: www.bbc.co.uk/cbbc/topics/stay-safe

Datganiadau posibl:

- Bydd y rheolau e-ddiogelwch yn cael eu gosod mewn ystafelloedd sydd â mynediad i'r Rhyngwrwyd.
- Bydd disgyblion yn cael gwybod bod defnydd o'r rhwydwaith a'r rhyngwrwyd yn cael ei fonitro.
- Bydd rhaglen e-ddiogelwch yn cael ei chyflwyno i godi ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r Rhyngwrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol, a phwysigrwyd hynny.
- Dylai canllawiau yn ymwneud â defnydd diogel a chyfrifol gael eu cyflwyno cyn mynediad i'r Rhyngwrwyd.
- Bydd modiwl ar e-ddiogelwch yn cael ei gynnwys yn y rhaglenni ABCCh neu TGCh, yn ymwneud â defnydd gartref ac yn yr ysgol.

4.5.2 Sut caiff y polisi ei drafod gyda staff?

Trafodaeth: Mae'n bwysig bod yr holl staff yn teimlo'n hyderus ynghylch defnyddio technolegau newydd wrth addysgu. Ni fydd polisi e-ddiogelwch yr ysgol yn effeithiol oni bai bod yr holl staff yn cefnogi ei werthoedd a'i ddulliau. Dylid rhoi cyfleoedd i staff drafod y problemau a datblygu strategaethau addysgu priodol. Byddai'n afresymol, er enghraifft, pe bai staff cyflenwi yn cael cais i gymryd cyfrifoldeb am weithgaredd ar y Rhyngwrwyd heb baratoi ar ei gyfer.

Rhaid i staff ddeall bod y rheolau ar gamddefnyddio systemau gwybodaeth ar gyfer cyflogaion Sir Benfro yn benodol iawn. Os yw aelod staff yn pryderu am unrhyw agwedd ar ddefnyddio TGCh yn yr ysgol, dylai drafod hyn gyda'i reolwr llinell er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth bosibl.

Defnyddir TGCh yn helaeth a dylid cynnwys yr holl staff, gan gynnwys staff gweinyddol, gofawyr, llywodraethwyr a chynorthwyrwyr cymorth dysgu mewn hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth priodol. Dylai cyfnod sefydlu staff newydd gynnwys trafodaeth ar bolisi e-ddiogelwch yr ysgol.

Datganiadau posibl:

- Bydd yr holl staff yn cael copi o bolisi e-ddiogelwch yr ysgol, ynghyd ag esboniad o bwysigrwydd y polisi a sut caiff ei gymhwyso.
- Dylai staff fod yn ymwybodol bod traffig ar y rhyngwrwyd yn gallu cael ei fonitro a'i olrhain. Mae doethineb ac ymddygiad proffesiynol yn hanfodol.
- Bydd staff sy'n rheoli systemau hidlo neu'n monitro'r defnydd ar TGCh yn cael eu goruchwyllo gan uwch reolwyr a bydd gweithdrefnau clir ganddynt ar gyfer adrodd ar faterion.
- Darperir hyfforddiant i staff ar ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol ac ar bolisi e-ddiogelwch yr ysgol.

- Bydd cyngor ar systemau hidlo a gweithgareddau addysgol a hamdden sy'n cynnwys defnyddio'r rhyngwrwyd yn gyfrifol yn ar gael i rieni.
- Bydd rhieni â diddordeb yn cael eu cyfeirio at sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn adran 7.0 - Cysylltiadau a Chyfeiriadau e-Ddiogelwch.

4.5.3 Sut caiff cefnogaeth rhieni ei hennyn?

Trafodaeth: *Mae'r defnydd o'r rhyngwrwyd yng nghartrefi disgyblion yn cynyddu'n gyflym iawn. Oni bai bod rhieni'n ymwybodol o'r peryglon, gallai disgyblion fod â mynediad i'r rhyngwrwyd heb unrhyw gyfyngiad. Mae'n bosibl y bydd yr ysgol yn gallu helpu rhieni i gynllunio defnydd wedi'i oruchwyllo'n briodol o'r rhyngwrwyd gartref.*

Datganiadau posibl:

- Tynnir sylw rhieni i bolisi e-ddiogelwch yr ysgol mewn cylchlythyron, yn llyfryn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.
- Eir i'r afael â materion yn ymwneud â'r rhyngwrwyd mewn modd sensitif, a chaiff rhieni wybod am hyn fel y bo'n briodol.
- Bydd dull partneriaeth â rhieni'n cael ei annog. Gallai hyn gynnwys nosweithiau rhieni gydag arddangosiadau ac awgrymiadau ar gyfer defnydd diogel o'r rhyngwrwyd gartref.

5.0 Polisi ar Gyfathrebu Electronig a Chyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Staff Ysgol

5.1 Cyflwyniad

Darperir y polisi hwn i amddiffyn disgyblion a sicrhau bod staff yn gweithio'n ddiogel wrth ddefnyddio cyfathrebu electronig a chyfryngau cymdeithasol.

Mae offer cyfathrebu electronig yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) ffôn, ffacs, negeseuon llais, cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi, ffonau symudol (pob math), llungopiwy, camerâu digidol, camerâu gwe, fideos ac offer llaw.

Gall mathau o gyfathrebu gynnwys (ond nid wy'n gyfyngedig i) y rhyngwrwyd, galwadau ffôn, e-bost, negeseuon testun, negeseuon amlgyfrwng, anfon ffotograffau a delweddau symudol, cysylltiadau trwy wefannau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, blogio, wicis, cyswllt trwy gamerâu gwe a ffonau ar y rhyngwrwyd.

Dylai staff lofnodi'r Polisi Defnydd Derbyniol i ddangos eu bod wedi deall a'u bod yn derbyn cynnwys y ddogfen hon.

Gallai methu dilyn unrhyw agwedd ar yr arweiniad hwn (naill ai'n fwriadol neu ar ddamwain) arwain at gamau disgyblu yn unol â pholisi disgyblu'r ysgol.

5.2 Y rhyngwrwyd yn yr ysgol

Mae'r rhyngwrwyd yn adnodd gwaith gwerthfawr, sy'n cyfoethogi addysgu a dysgu. Yn ystod oriau ysgol, disgwylir i staff gyfyngu eu mynediad i'r rhyngwrwyd i weithgareddau'n ymwneud â gwaith. Mae'n bosibl y caniateir defnydd personol rhesymol y tu allan i oriau gwaith cofnodedig (er enghraifft, adeg amser cinio).

Ni chaiff staff ddefnyddio offer electronig ar gyfer unrhyw fath o weithgarwch anghyfreithlon, e.e. lawrlwytho deunydd hawlfraint, cyflwyno firysau, hacio i gyfrifiaduron eraill, edrych ar ddeunydd pornograffig, aflan, ffaidd neu unrhyw ddeunydd amhriodol arall o unrhyw ffynhonnell na'i lawrlwytho,

na throsglwyddo neu storio deunydd o'r fath ar gyfrifiadur. Os yw'r offer a ddefnyddir ar gyfer gweithgarwch anghyfreithlon yn offer personol neu'n offer y mae'r ysgol yn berchen arno, gallai achos troseddol ddeillio o hyn.

Y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd os byddwch chi'n mynd at ddeunydd amhriodol yn anfwriadol.

Dylai unrhyw un sy'n mynd at ddeunydd amhriodol yn anfwriadol roi gwybod i'r pennaeth neu'r swyddog e-ddiogelwch yn yr ysgol ar unwaith a sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi.

5.3 E-bost

Dylai pob neges e-bost sy'n gysylltiedig â gwaith gael ei hysgrifennu gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost gwaith. Dylai e-bost yr ysgol gael ei hystyried yn gyfathrebu swyddogol. Dylid ysgrifennu negeseuon e-bost gan ddefnyddio'r un nawws a thestun proffesiynol ag unrhyw fath arall o ohebiaeth swyddogol o'r ysgol. Mae'r un rheolau ar gyfer gohebiaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn berthnasol i'r e-bost.

Ni ddylid defnyddio cyfrifon e-bost yr ysgol i anfon, cadw na dosbarthu negeseuon e-bost personol.

Gwaherddir anfon negeseuon e-bost sarhaus neu ffaidd arall a gellid ystyried hyn yn weithred droseddol. Cofiwch y gall negeseuon e-bost gael eu cyflwyno fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol a gall trafodaethau e-bost gyda thrydydd parti greu contract sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

Dylid cymryd gofal wrth agor atodiadau e-bost oni bai eich bod yn gwbl hyderus ynghylch eu tarddiad, oherwydd dyma un o'r adegau mwyaf tebygol ar gyfer cyflwyno firws i system gyfrifiadurol.

Ni ddylai unigolyn ddefnyddio e-bost unigolyn arall yn yr ysgol heb ganiatâd pendant a dealltwriaeth glir o'r rheswm dros y mynediad dirprwyol. Fodd bynnag, dylai staff gofio y gall staff eraill yr ysgol gael mynediad at gyfrifon e-bost yr ysgol at ddibenion monitro neu reoli.

Y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd os byddwch yn derbyn negeseuon e-bost amhriodol

Mae'n amhosibl rheoli pa wybodaeth sy'n cael ei hanfon at aelod staff trwy e-bost. Fodd bynnag, os yw'n sarhaus, yn fflaidd a/neu'n ddeunydd gwahaniaethol, cyfrifoldeb y sawl sy'n ei derbyn yw rhoi gwybod am hyn ar unwaith, ac yn ysgrifenedig, i swyddog e-ddiogelwch yr ysgol (neu'r pennaeth). Peidiwch byth ag ymateb.

Cadwch gopi wedi'i argraffu o'r neges fel tystiolaeth. Sicrhewch fod manylion yr anfonwr hefyd yn cael eu cofnodi oherwydd gallai darparwr gwasanaeth e-bost yr anfonwr weithredu.

5.4 Cyfathrebu cymdeithasol ar-lein (fel rhwydweithiau cymdeithasol, blogiau)

Mae llawer o staff a myfyrwyr yn defnyddio'r cyfrifiadur at ddiben cyfathrebu cymdeithasol y tu allan i'r ysgol (e.e. Facebook, Twitter). Ni ddylai staff ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol i fynd at rwydweithiau cymdeithasol personol na'u diweddarau. Dylai staff fod yn ymwybodol bod ychwanegu myfyrwyr, neu ffrindiau myfyrwyr, yn 'ffrindiau' ar eu safle rhwydweithio cymdeithasol yn mynd yn groes i bolisi Cyngor Sir Penfro.

Ni ddylai sylwadau ar rwydweithiau cymdeithasol na blogiau ymwneud â'r ysgol, staff na disgyblion, na'u henwi, oherwydd gallai hyn arwain at gamau disgyblu. Hefyd, mae'n bwysig nad yw ffotograffau a disgrifiadau o weithgareddau ym mywyd personol staff yn cael effaith andwyol ar enw da proffesiynol y staff na'r ysgol. Dylai staff gofio hyd yn oed os ydynt wedi defnyddio'r gosodiadau preifatrwydd, mae'n bosibl na allant atal deunydd rhag bod yn gyhoeddus drwy safleoedd 'ffrindiau'.

Cydnabyddir bod rôl pecynnau cyfathrebu cymdeithasol ar-lein, fel blogiau a wicis, yn gallu bod yn ddefnyddiol mewn ysgolion – fel ar wefannau ysgolion, cyfnodolion dysgu, dathlu gwaith da, rhannu gwybodaeth a hwyluso cydweithio. Lle y bo disgyblion a'u teuluoedd yn rhannu'r pecynnau hyn gyda staff mewn ysgol, mae'n bwysig y dylid gwneud hyn trwy ddarpariaeth ysgol bob amser, fel Porth Sir Benfro neu Hwb Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio manylion mewngofnodi ysgol lle y mae'r holl gyfathrebu yn agored a thryloyw.

Os yw staff yn cadw blog personol, rhaid i'r cynnwys gynnal safonau proffesiynol derbyniol. Gallai unrhyw ddefnydd amhriodol arwain at gamau disgyblu yn unol â pholisi'r ysgol. Dylai pob blog gynnwys ymwadiad sy'n datgan mai barn personol sy'n cael ei mynegi ac nid o reidrwydd barn yr ysgol neu Gyngor Sir Penfro.

Mae ysgolion yn agored iawn i'r perygl bod deunydd amdanynt yn cael ei roi ar-lein a dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r angen i adrodd am hyn os dônt i wybod am unrhyw beth sy'n dwyn anfri ar yr ysgol. Dylai ysgolion wirio'n rheolaidd, gan ddefnyddio peiriant chwilio, i weld a oes unrhyw ddeunydd o'r fath wedi'i osod ar-lein.

Y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd os byddwch yn darganfod deunydd amhriodol, bygythiol neu faleisus ar-lein amdanoch chi eich hun neu eich ysgol:

Cadwch a diogelwch unrhyw dystiolaeth. Er enghraifft, nodwch y cyfeiriad gwe (URL) neu gwnewch giplun o'r sgrin neu gopi ohono a'i argraffu. Rhowch wybod i'ch rheolwr llinell neu'ch pennaeth ar unwaith, a ddylai yna roi gwybod i'r Heddlu amdano.

Os yw'n briodol ac os cewch gyngor i wneud hynny, cysylltwch â'r sawl a lwythodd y deunydd i'r we neu'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngrywd/gweinyddwr y safle a gofyn i'r deunydd gael ei dynnu oddi yno.

Mae gan bob safle rhwydwaith cymdeithasol ffordd o adrodd am ddeunydd neu weithgarwch annerbyniol ar eu safle – mae rhai ar gael yn fwy hwylus nag eraill. Os yw disgybl neu aelod staff wedi creu'r deunydd, yna mae cyfrifoldeb ar yr ysgol i ymdrin â hyn.

5.5 Cyfathrebu ar-lein amser real (e.e. tecstio, defnyddio camerâu gwe, sgwrsio, ffôn symudol)

Mae'r gallu i gyfathrebu mewn amser real gan ddefnyddio'r cyfrifiadur a dyfeisiau electronig eraill (fel ffonau symudol) yn gwneud y rhain yn gyfrwng gwyach at ddibenion addysgol. Fodd bynnag, dylai staff gymryd yr un faint o ofal gyda'r rhain â phe baent yn gweithio wyneb yn wyneb gyda myfyriwr neu grŵp o fyfyrwyr. Dylid cael mynediad bob amser trwy gyfrif a grëwyd drwy'r ysgol, a byth trwy gyfrif personol, a dylai ganolbwyntio ar amcan addysgol wedi'i bennu'n glir.

Mae'n debygol y bydd adegau pan fydd y math hwn o weithgarwch yn digwydd y tu hwnt i oriau ysgol arferol ac oddi ar safle'r ysgol. Yn y sefyllfa hon, dylai cyflawni'r gweithgarwch fod yn gwbl hysbys i reolwr llinell a chyda'i gytundeb. Dylai staff gofio bod yn rhaid iddynt ganolbwyntio ar ddiben addysgol y cyfathrebu a pheidio byth â gadael iddo droi'n sgwrs gymdeithasol.

Hefyd, dylai staff gytuno i adegau penodol pan fyddant ar gael a chaniatáu cyswllt yn ystod yr adegau hyn yn unig er mwyn diogelu eu hamser personol. Pan ddefnyddir gwe gamera, dylai fod diben clir i hyn. Dylai staff fod yn ymwybodol bod cyfarfodydd o'r fath yn gallu cael eu recordio yn ddjarwybod iddynt. Fodd bynnag, efallai byddai staff yn dymuno defnyddio'r swyddogaeth hon er eu diogelwch eu hunain, cyn belled ag y bo pob parti'n cael gwybod am y recordio.

Rhaid i staff ddiogelu eu preifatrwydd trwy beidio byth â chaniatáu i ddisgyblion neu rieni gael eu manylion cyswllt, fel rhif ffôn symudol neu fanylion mewngofnodi. Mae seiber-fwlio staff gan ddisgyblion yn gyffredin iawn drwy ffôn symudol neu e-bost.

Y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd os oes digwyddiad:

Rhowch wybod i'ch rheolwr llinell amdano ar unwaith ac yn ysgrifenedig.

Peidiwch ag ymateb i negeseuon testun neu fideo sarhaus neu bryderus.

Peidiwch â dileu negeseuon. Cadwch y rhain fel tystiolaeth.

Defnyddiwch 1471 i geisio cael y rhif os gallwch. Mae'n bosibl olrhain y rhan fwyaf o alwadau.

Rhowch wybod i ddarparwr eich ffôn a/neu gofynnwch am newid eich rhif

Hefyd, gallai staff technegol eich helpu i ddarganfod neu ddiogelu tystiolaeth e.e. logiau o'r alwad.

5.6 Camddefnyddio offer electronig

Gall camddefnydd fod yn weithred ddisgyblu ddifrifol. NI CHAIFF cyflogeion ddefnyddio offer yr ysgol (gan gynnwys gliniadur neu ddyfeisiau symudol a ddarperir gan yr ysgol) i:devices) to:

Gadw, gwyllo, lawrlwytho neu ddsbarthu deunydd sy'n ffiaidd, sarhaus neu bornograffig, sy'n cynnwys delweddau treisgar neu sy'n annog ymddygiad troseddol neu gasineb hiliol

Gamblo

Lobio'n wleidyddol

Hyrwyddo neu redeg busnes masnachol

Lawrlwytho neu ddsbarthu gemau, cerddoriaeth neu luniau o'r rhyngwyd at ddefnydd personol. Gallant ddod â firysau gyda nhw, defnyddio capasiti ar y gweinyddwyr ac fe allent dorri hawlfraint

Treulio amser yr ysgol ar faterion personol (er enghraifft, trefnu gwyliau, siopa, edrych ar wefannau diddordeb personol). Gallai hyn gael ei drin fel twyll.

Cadw gwybodaeth bersonol ar rwydwaith yr ysgol sy'n defnyddio capasiti ac sy'n arafu'r system (er enghraifft, ffotograffau, arbedwyr sgrin neu bapur wal personol)

Anfon negeseuon e-bost, testun neu negeseuon eraill na chyhoeddi unrhyw beth ar wefan, safle rhwydweithio cymdeithasol neu flog, sydd:

- yn beirniadu aelodau o gymuned yr ysgol, gan gynnwys disgyblion
- yn cynnwys sylwadau penodol neu awgrymedig na fydddech yn eu dweud wyneb yn wyneb
- yn cynnwys sylwadau amhriodol a allai achosi tramgwydd neu aflonyddu ar sail rhyw, hil, anabledd, oedran, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol
- wedi deillio o lythyr cadwyn

Cynnal perthynas breifat ac agos trwy systemau'r ysgol

Lawrlwytho neu gopiö meddalwedd (heblaw diweddariadau presennol i feddalwedd) na defnyddio'r system e-bost i anfon unrhyw ddogfennau neu feddalwedd heb wirio'r cytundeb hawlfraint neu gytundeb y drwydded

Gosod meddalwedd wedi'i thrwyddedu i'r ysgol ar gyfriadur personol oni bai bod caniatâd i wneud hynny wedi'i gynnwys yn benodol yng nghytundeb trwydded yr ysgol

Tynnu, anfon neu gyhoeddi lluniau o aelod staff neu ddisgybl ar ffôn symudol, camera fideo neu gamer heb ganiatâd yr unigolyn

Dosbarthu rhestrau e-bost am fusnes nad yw'n gysylltiedig â'r ysgol. Os oes gennych unrhyw amheuan, gofynnwch i'ch rheolwr/Pennaeth.

Defnyddio ystafelloedd sgwrsio ar y we (heblaw'r cyfleusterau diogel, wedi'u cymedroli, a ddarperir yn Llwyfan Dysgu'r ysgol)

At hynny, NI DDYLAI cyflogeion:

Wneud unrhyw beth sy'n dwyn anfri ar yr ysgol neu'r Cyngor

NI CHAIFF gliniadur neu ddyfais symudol bersonol y deuir ag ef i safle'r ysgol gael ei ddefnyddio i gyflawni'r un o'r gweithgareddau uchod yn ystod y diwrnod ysgol, ac ni ddylai ychwaith gynnwys gwybodaeth a fyddai'n cael ei hystyried yn annerbyniol ar beiriant yr ysgol. Argymhellir y dylai gliniadur personol a ddefnyddir yn yr ysgol fod â chyfrif diogel ar wahân at ddefnydd yr ysgol. Yn ogystal, dylai unrhyw liniadur personol a ddefnyddir ar gyfer unrhyw weithgaredd ysgol gael ei amddiffyn yn llawn rhag firysau.

5.7 Monitro a phreifatrwydd

Mae cyfleusterau e-bost a rhyngwyd yr ysgol yn systemau busnes, y mae'r ysgol yn berchen arnynt. Felly, mae'r ysgol yn cadw'r hawl i fonitro'r holl ddefnydd ar y rhyngwyd ac ar systemau TGCh yr ysgol.

Caiff y defnydd ei fonitro i sicrhau bod systemau'n cael eu defnyddio'n bennaf at resymau busnes ac addysg, ac nad oes unrhyw aflonyddwch na difenwad yn digwydd ac nad yw cyflogeion yn cymryd rhan mewn gweithrediadau anghyfreithlon. Gallai offer electronig ar safle'r ysgol gael ei chwilio a'i archwilio.

Mae angen i staff gofio bod modd olrhain safleoedd ar y rhyngwyd, a bod modd adfer negeseuon neu atodiadau sydd wedi'u dileu neu eu rhoi yn y bin.

Dylai'r e-bost, galwadau ffôn a phost mewnol ac allanol (oni nodir yn glir eu bod yn bost preifat a chyfrinachol) gael eu defnyddio am resymau busnes ac addysg yn bennaf. I sicrhau hyn, gellir monitro'n rheolaidd. Mae gan reolwyr yr ysgol fynediad dirprwyol i holl systemau cyfathrebu at ddiben monitro a rhyng-gipio cyfathrebiadau er mwyn ymdrin â materion os yw cyflogai yn absennol oherwydd gwyliau, salwch neu resymau eraill.

Nid oes hawl preifatrwydd unigol gan unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gadw ar rwydwaith yr ysgol neu ei ddsbarthu trwy system e-bost yr ysgol. Yn unol â RIPA (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000), gellir monitro neu oruchwylio systemau e-bost mewnol, neu wybodaeth a gedwir ar weinydd, yn ddarwybod i gyfogai. Caniateir rhyng-gipio cyfathrebiadau yn y dull hwn fel y gall y cyngor sicrhau bod ei systemau'n cael eu defnyddio'n gywir yn unol â pholisïau'r ysgol a'u bod yn gweithio'n gywir.

5.8 Toriadau a chosbau

Gallai methu dilyn unrhyw agwedd ar y polisi hwn (naill ai'n fwriadol neu ar ddamwain) arwain at gamau disgyblu yn erbyn staff, yn unol â pholisi disgyblu'r ysgol a'r Cyngor; gallai hyn arwain at ddiswyddo.

5.9 Arweiniad arfer da i staff ysgolion

Talwch sylw manwl i'r rhestr o ddulliau camddefnyddio yn adran 3 gan mai diben y rhestr hon yw eich amddiffyn chi ac mae'n egluro sut y gellir osgoi camau disgyblion posibl.

Mewn gohebiaeth â disgyblion a rhieni, peidiwch byth â rhoi gwybodaeth bersonol sy'n rhoi eich cyfeiriad cartref, rhif ffôn, rhif ffôn symudol na chyfeiriad e-bost personol. Pan fydd gwybodaeth o'r fath yn hysbys, mae'n bosibl y gallech ddiodeff aflonyddwch trwy alwadau ffôn, negeseuon testun a negeseuon e-bost dieisiau.

Dylech amddiffyn eich safle rhwydweithio cymdeithasol trwy ddefnyddio'r gosodiadau preifatrwydd cywir. Gwnewch yn siŵr na all gwybodaeth bersonol gael ei gweld o'r dolenni i safleoedd eich ffrindiau.

Peidiwch â derbyn disgyblion yn ffrindiau ar eich safle rhwydweithio cymdeithasol personol. Os yw'n bosibl, peidiwch â chynnwys rhieni yn ffrindiau.

Osgowch ddefnyddio ystafelloedd sgwrsio, negeseua gwib neu wasanaethau rhwydweithio cymdeithasol eraill y mae disgyblion yn eu defnyddio'n gymdeithasol ac nad ydynt yn cael eu monitro gan yr ysgol.

Dylech bob amser gadw copi o ohebiaeth electronig â disgyblion a rhieni (boed wedi'i hanfon neu eu derbyn) a chadwch gofnod o ddyddiadau, amseroedd a chynnwys sgysiaau ffôn.

Os caiff eich gliniadur ysgol ei ddefnyddio'r tu allan i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol, trefnwch gyfrif defnyddiwr gwahanol i sicrhau bod data personol neu gyfrinachol wedi'i ddiogelu. Defnyddiwch gyfrinair cryf i amddiffyn gliniadur yr ysgol rhag mynediad heb awdurdod.

Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n caniatáu i bobl weld gwybodaeth bersonol neu wybodaeth gyfrinachol am yr ysgol pan gaiff cyfrifiadur ei adael ar ei ben ei hun. Diffoddwch y cyfrifiadur, allgofnodwch neu gosodwch arbedwr sgrin wedi'i amddiffyn gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod.

Cadwch bob cyfrinair a manylion mewngofnodi yn hollol breifat a chofiwch allgofnodi'n gywir ar ôl

defnyddio'r cyfrifiadur. Peidiwch byth â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi personol oherwydd chi fydd yn gyfrifol wedyn am eu gweithgarwch ar-lein.

Defnyddiwch gamera digidol neu gamera fideo'r ysgol bob amser i dynnu lluniau sy'n gysylltiedig â'u hysgol a'u lanlwytho i gyfrifiadur yr ysgol. Ar ôl eu lanlwytho, dylid dileu'r lluniau o gof y camera. Peidiwch â mynd â lluniau o blant adref i'w defnyddio ar gyfrifiadur personol.

Mae defnyddio setiau symud a siarad yn cynyddu mewn ysgolion. Dylai staff sy'n defnyddio'r offer hwn siarad yn broffesiynol a pharchu cyfrinachedd. Cofiwch y gallai rhywun ar y naill ben neu'r llall glywed y neges.

Os byddwch chi'n defnyddio offer electronig yr ysgol oddi ar y safle, byddwch yr un mor ofalus ag y byddech yn yr ysgol. Os bydd rhywun yn mynd â chamera digidol o safle'r ysgol, ni ddylid dod â'r camera yn ôl i'r ysgol gyda ffotograffau personol arno.

Ni argymhellir bod unrhyw drafodion ariannol personol yn cael eu cyflawni ar offer yr ysgol oherwydd gallai disgyblion gael at y wybodaeth honno.

Dilynwch ragofalon synhwyrol pan fyddwch yn tynnu ffotograffau a allai gynnwys disgyblion: gofynnwch bob amser am ganiatâd myfyrwyr a/neu rieni a gwnewch yn siŵr nad oes modd gweld enwau disgyblion unigol, yn enwedig os bydd y ffotograff yn cael ei defnyddio ar wefan ysgol neu amgylchedd dysgu rhithwir. (Cyfeiriwch at bolisi'r ysgol i gael arweiniad pellach ar y mater hwn.)

Rhowch wybod i'r unigolyn dynodedig yn eich ysgol (neu eich pennaeth) am unrhyw dudalennau gwe yr aed iddynt neu negeseuon e-bost a gafwyd lle y gellid disgrifio'r cynnwys yn amhriodol neu'n faleisus, a gwnewch hynny yn ysgrifenedig, ar unwaith. Cadwch gopïau fel tystiolaeth.

5.10 Disgwyliadau o ran yr ysgol

Er mwyn sicrhau arfer diogel ar gyfer y staff, dylai'r ysgol:

Ddatgan yn glir y bydd yr ysgol yn gorfodi polisïau i amddiffyn staff a disgyblion rhag defnydd maleisus ar ffonau symudol, yn benodol, defnyddio'r cyfarpar camera a fideo ar ffonau.

Sicrhau bod polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael eu rhannu gyda'r holl staff.

Sefydlu systemau ysgol gyfan ar gyfer: storio negeseuon e-bost, delio â negeseuon amhriodol a thorri diogelwch.

Darparu cyfeiriad e-bost personol i'r holl staff - e.e. cyfeiriad e-bost ar gyfer y Porth Addysg i'w ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth yn ymwneud â'r ysgol ac i'w ddefnyddio gan bob aelod staff.

Sefydlu polisi clir i'r ysgol ar fonitro'r defnydd ar offer electronig yr ysgol gan y staff, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cael mynediad at yr e-bost a ffeiliau pan fydd staff yn absennol oherwydd gwyliau, salwch ac ati.

Darparu camerâu digidol a ffonau symudol y gall staff eu benthg yn ôl yr angen ar gyfer pob gwaith sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Darparu amgylchedd dysgu diogel, fel Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan HWB, ar gyfer cyfathrebiadau electronig â disgyblion.

Sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu ar gyfer rhoi gwybod am gyfathrebiadau electronig dieisiau neu ddamweiniol a bod staff yn gwybod pwy yw'r person cywir i roi gwybod iddo am unrhyw broblemau. Sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi'n gywir. Trin digwyddiadau o'r fath o ddifrif.

Creu gweithdrefnau i wirio presenoldeb yr ysgol ar y we yn rheolaidd i sicrhau bod deunydd sy'n niweidiol i'r ysgol yn cael ei ddarganfod yn gyflym.

6.0 Deunyddiau Ategol a Pholisiau Defnyddwyr Derbyniol

6.0 Deunyddiau Ategol

Mae ystod lawn o ddeunyddiau ategol ar gael yn yr adran adnoddau e-ddiogelwch ar Borth Sir Benfro:

www.pgfl.org.uk/portal/cd/widercurriculum/ISafeSite/Pages/Home.aspx

Mae Polisiâu Defnydd Derbyniol a llythron enghreifftiol i rieni wedi'u cynnwys isod. Lluniwyd y polisiâu hyn fel y gallwch gopïo a gludo'r testun i ddogfennau swyddogol yr ysgol ac ychwanegu enw a logo'r ysgol os oes angen. Hefyd, mae'r rhain ar gael ar ffurf dogfennau unigol ar Borth Sir Benfro.

6.1 Polisi Defnydd Derbyniol ar gyfer Staff Ysgol

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall polisi Arweiniad Cyngor Sir Penfro ar Gyfathrebu Electronig a Chyfyngau Cymdeithasol ar gyfer staff a byddaf yn defnyddio pob offer sy'n cynnig dulliau cyfathrebu electronig a roddir i mi gan yr ysgol ac unrhyw ddyfeisiau personol a ddefnyddiaf ar gyfer gweithgareddau'r ysgol yn unol â'r ddogfen.

Yn benodol:

- Bydd unrhyw gynnwys a roddaf ar-lein (gan gynnwys y tu allan i amser yr ysgol) neu a anfonaf mewn e-bost yn broffesiynol a chyfrifol ac yn cynnal enw da'r ysgol
- I amddiffyn fy mhreifatrwydd fy hun, byddaf yn defnyddio cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn yr ysgol (gan gynnwys rhif ffôn symudol yr ysgol) yn fanylion cyswllt ar gyfer disgyblion a'u rheini
- Os byddaf i'n defnyddio unrhyw fath o gyfathrebu electronig i gysylltu â disgyblion neu rieni, gwnaf hynny drwy system achrededig yr ysgol yn unig
- Ni fyddaf yn defnyddio fy ffôn symudol personol heblaw yn ystod amser nad yw'n amser addysgu; caiff ei gadw'n ddistaw yn ystod gwersi heblaw mewn argyfyngau, gyda chytundeb fy rheolwr llinell
- Ni fyddaf byth yn defnyddio fy ffôn symudol personol nac offer electronig personol arall i dynnu ffotograffau neu wneud fideos o ddisgyblion
- Byddaf yn tynnu ffotograffau neu'n gwneud fideos dim ond gyda chaniatâd y disgyblion a/neu eu rhieni mewn gweithgareddau ysgol cytûn

- Byddaf yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch ac e-ddiogelwch offer TG yr ysgol y byddaf yn mynd â nhw o'r safle ac yn dileu unrhyw beth o natur bersonol cyn dychwelyd yr offer i'r ysgol
- Byddaf yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob gliniadur personol a dyfeisiau â chof yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag firysau ac yn sicrhau bod yr amddiffyniad yn gyfredol
- Byddaf yn rhoi gwybod i'm rheolwr llinell ar unwaith am unrhyw fynediad ar ddamwain i ddeunydd y gellir ei ystyried yn annerbyniol, ac yn sicrhau bod fy adroddiad yn cael ei gofnodi

Cadarnhaf fy mod wedi darllen Arweiniad Cyngor Sir Penfro ar Gyfathrebiadau Electronig a Chyfyngau Cymdeithasol ar gyfer staff ac yn gweithredu'r canllawiau ynddo.

Yn benodol:

- Bydd data, gwybodaeth am ddisgyblion a gwybodaeth am yr ysgol sy'n gyfrinachol a ddefnyddiaf yn cael eu storio dim ond ar ddyfais sydd wedi'i hamgryptio neu ei hamddiffyn gan gyfrinair cadarn. Bydd arbedwr sgrin wedi'i amddiffyn gan gyfrinair ar gyfrifiaduron a bydd defnyddwyr yn mewngofnodi'n llwyr ohonynt neu'n cloi'r sgrin cyn eu gadael
- Deallaf fod gennyf yr un ddyletswydd i ddiogelu data'r ysgol pan fyddaf yn gweithio ar gyfrifiadur y tu allan i'r ysgol
- Byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith os bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei cholli ar ddamwain fel y gellir cymryd camau priodol

Deallaf y gallai'r ysgol monitro neu wirio fy nefnydd ar offer TG neu gyfathrebu electronig.

Deallaf y gallaf fod yn destun gweithdrefnau disgyblu'r Ysgol os na fyddaf yn dilyn y rheolau hyn.

Enw

Llofnod

Dyddiad

6.2 Polisi Defnydd Derbyniol i staff dros dro neu staff cyflenwi ac ymwelwyr â'r ysgol

Fel ymwelydd â'r ysgol, rwyf yn cydnabod mai fy nghyfrifoldeb i yw dilyn gweithdrefnau e-ddiogelwch yr ysgol a bod gennyf gyfrifoldeb i ofyn am gyngor os nad wyf yn siwr am weithdrefn.

Cadarnhaf y byddaf yn defnyddio pob offer cyfathrebu electronig a ddarperir gan yr ysgol, ac unrhyw ddyfeisiau personol y dof â nhw i'r ysgol, mewn modd cyfrifol ac yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Byddaf yn defnyddio rhwydwaith yr ysgol dim ond at y diben y rhoddwyd mynediad i mi ar ei gyfer; yn gysylltiedig â'r gwaith rwyf yn ei gwblhau yn yr ysgol
- Ni fyddaf yn defnyddio cyfrifiadur personol y deuthum ag ef gyda mi i'r ysgol ar gyfer unrhyw weithgaredd y gellid ystyried ei fod yn amhriodol yn yr ysgol
- Ni fyddaf yn defnyddio fy ffôn symudol personol nac offer electronig arall i dynnu ffotograffau neu wneud fideos o ddisgyblion
- Ni fyddaf yn cyhoeddi ffotograffau neu fideos o ddisgyblion heb gydsyniad a chytundeb yr ysgol neu'r disgyblion dan sylw
- Ni fyddaf yn rhoi fy manylion cysylltu personol, fel cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, na manylion cyfryngau cymdeithasol i unrhyw ddisgybl neu riant yn yr ysgol. Bydd cysylltiad bob amser trwy gyfrwng wedi'i gymeradwyo gan yr ysgol. Ni fyddaf yn trefnu fideo-gynadledda na defnyddio gwegamera gyda disgyblion oni roddir caniatâd penodol
- Byddaf yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch ac e-ddiogelwch offer TG yr ysgol, gan gynnwys sicrhau bod unrhyw ddyfeisiau personol neu ddyfeisiau â chof a ddefnyddiaf wedi'u hamddiffyn yn llawn rhag firsau a sicrhau bod yr amddiffyniad yn gyfredol

- Ni fyddaf yn defnyddio fy ffôn symudol personol heblaw yn ystod amser nad yw'n amser addysgu; caiff ei gadw'n ddistaw yn ystod gwersi heblaw mewn argyfyngau, gyda chytundeb fy rheolwr llinell
- Byddaf yn rhoi gwybod i uwch aelod staff ar unwaith am unrhyw fynediad ar ddamwain i ddeunydd y gellir ei ystyried yn annerbyniol, ac yn sicrhau bod fy adroddiad yn cael ei gofnodi
- Os wyf yn gallu mynd at ddata, gwybodaeth am ddisgyblion a gwybodaeth am yr ysgol sy'n gyfrinachol, ni fyddaf yn mynd â hynny o safle'r ysgol oni chaf ganiatâd ac, os felly, caiff ei gludo ar ddyfais sydd wedi'i hamgryptio neu ei hamddiffyn gan gyfrinair cadarn
- Byddaf yn rhoi gwybod i uwch aelod staff ar unwaith os bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei cholli ar ddamwain fel y gellir cymryd camau priodol
- Deallaf fod gennyf ddyletswydd gofal i sicrhau bod myfyrwyr yn yr ysgol yn defnyddio pob math o offer a dyfeisiau electronig yn ddiogel ac y dylwn roi gwybod i uwch aelod staff am unrhyw ddefnydd amhriodol
- Ni fyddaf yn cyhoeddi nac yn rhannu unrhyw wybodaeth a gefais wrth weithio yn yr ysgol ar unrhyw wefan, blog neu safle rhwydweithio cymdeithasol personol, na thrwy unrhyw ddull personol arall, oni bai bod gennyf ganiatâd gan yr ysgol.

Deallaf fod hawl gan yr ysgol archwilio neu ddileu unrhyw ffeiliau a gedwir ar ei system gyfrifiadurol, i fonitro unrhyw safleoedd yr ymwelwyd â nhw ar y rhyngwrwyd ac unrhyw negeseuon e-bost a anfonwyd ac, os oes angen, adrodd am unrhyw beth a allai gael ei ystyried yn drosedd.

Deallaf y gallaf fod yn destun gweithdrefnau disgyblu os na fyddaf yn dilyn y rheolau hyn.

Enw

Llofnod

Dyddiad

6.3 Polisi defnydd derbynol i ddefnyddwyr cymunedol cyfrifiaduron yr ysgol

Fel defnyddiwr cyfrifiaduron yr ysgol, rwyf yn gydnabod mai fy nghyfrifoldeb i yw dilyn gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer defnyddio cyfrifiaduron yn ddiogel a bod gennyf gyfrifoldeb i ofyn am gyngor os nad wyf yn siwr ynghylch gweithdrefn.

Cadarnhaf y byddaf yn defnyddio pob offer cyfathrebu electronig sy'n perthyn i'r ysgol, ac unrhyw ddyfeisiau personol y dof â nhw i'r ysgol, mewn modd cyfrifol ac yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Ni fyddaf yn defnyddio cyfrifiaduron yr ysgol heblaw at ddibenion sy'n ymwneud â'r gwaith rwyf yn ei gwblhau yn yr ysgol
- Ni fyddaf yn defnyddio dyfais personol y deuthum â hi gyda mi i'r ysgol ar gyfer unrhyw weithgaredd y gellid ystyried ei fod yn amhriodol mewn ysgol
- Ni fyddaf yn defnyddio fy ffôn symudol personol nac offer electronig arall i dynnu ffotograffau neu wneud fideos o ddisgyblion
- Ni fyddaf yn cyhoeddi ffotograffau neu fideos o ddisgyblion heb gydsyniad a chytundeb yr ysgol a'r disgyblion
- Ni fyddaf yn rhoi fy manylion cysylltu personol, fel cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, na manylion cyfryngau cymdeithasol i unrhyw ddisgybl yn yr ysgol. Ni fyddaf yn trefnu fideo-gynadledda na defnyddio gwegamera gyda disgyblion oni bai bod yr ysgol yn rhoi caniatâd penodol
- Byddaf yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch ac e-ddiogelwch offer TG yr ysgol, gan gynnwys sicrhau bod unrhyw ddyfeisiau personol neu ddyfeisiau â chof wedi'u hamddiffyn yn llawn rhag firysau a sicrhau bod yr amddiffyniad yn gyfredol

- Byddaf yn rhoi gwybod i uwch aelod staff ar unwaith am unrhyw fynediad ar ddamwain i ddeunydd y gellir ei ystyried yn annerbyniol, ac yn sicrhau bod fy adroddiad yn cael ei gofnodi
- Ni fyddaf yn cyhoeddi nac yn rhannu unrhyw wybodaeth a gefais wrth weithio yn yr ysgol ar unrhyw wefan, blog neu safle rhwydweithio cymdeithasol personol, na thrwy unrhyw ddull personol arall, oni bai bod gennyf ganiatâd gan yr ysgol.

Deallaf fod hawl gan yr ysgol archwilio neu ddileu unrhyw ffeiliau a gedwir ar ei system gyfrifiadurol, i fonitro unrhyw wefannau yr ymwelwyd â nhw ac unrhyw negeseuon e-bost a anfonwyd ac, os oes angen, adrodd am unrhyw beth a allai gael ei ystyried yn drosedd.

Deallaf y gallaf gollir defnydd ar gyfleusterau'r ysgol os nad wyf yn dilyn y rheolau hyn.

Enw

Llofnod

Dyddiad

6.4 Polisi Defnydd Derbyniol i Fyfyrrwyr Ysgol Uwchradd

Deallaf fod yr hawl i ddefnyddio'r Rhyngwrwyd a chyfathrebu electronig yn fraint, yn gyfnewid am dderbyn y cytundeb hwn. Gallai unrhyw gamddefnydd ar fy rhan i arwain at golli'r fraint honno ac at gosbau eraill. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw weithgarwch y tu allan i'r ysgol sy'n mynd yn groes i reolau defnydd derbyniol yr ysgol.

Bydd pob gweithgarwch ar-lein yn briodol er mwyn:

- sicrhau diogelwch ac e-ddiogelwch system yr ysgol
- sicrhau parch tuag at holl aelodau'r gymuned
- cynnal enw da'r ysgol

Ystyr hyn yn benodol yw:

- Ni fyddaf yn mynd at y rhyngwrwyd ac i mewn i system TG yr ysgol heblaw trwy fyd nghyfrif awdurdodedig a'm cyfrinair, ac ni fyddaf yn datgelu'r rhain i bobl eraill
- Byddaf yn sicrhau nad wyf yn gwneud difrod i'r system yn fwriadol trwy god maleisus (e.e. heintiau firws, maleiswedd ac ati), hacio neu ymyrryd â'r system
- Bydd yr iaith a ddefnyddiaf mewn cyfathrebu electronig yn briodol ac yn addas, fel ar gyfer pob gwaith ysgol
- Byddaf yn parchu hawlfraint deunyddiau
- Ni fyddaf yn ymyrryd yn fwriadol â ffeiliau gwaith rhywun arall a/neu yn eu dileu
- Ni fyddaf yn anfon nac yn anfon ymlaen, cyhoeddi na chreu deunydd sy'n sarhaus, yn niweidiol neu fel arall yn achosi trallod i rywun arall. Ni fyddaf ychwaith yn anfon negeseuon dienw neu'n anfon llythyron cadwyn ymlaen

- Ni fyddaf yn defnyddio ffôn symudol, camera nac unrhyw ddyfais electronig arall i dynnu, cyhoeddi neu ddsbarthu lluniau neu fideos o unrhyw un heb eu caniatâd

Yn ogystal, deallaf:

- Fod defnyddio'r rhwydwaith i gael mynediad bwriadol i ddeunydd amhriodol fel deunydd pornograffig, hiliol neu ffaidd wedi'i wahardd ac y gallai gael ei ystyried yn drosedd
- Bod yn rhaid dilyn arweiniad ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwyd yn ddiogel a byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw ddeunyddiau neu ymddygiad sy'n annerbyniol yn fy marn i
- Bod yr ysgol yn cadw'r hawl i archwilio neu ddileu unrhyw ffeiliau a gedwir ar ei system gyfrifiadurol, i fonitro unrhyw wefannau yr ymwelwyd â nhw ac unrhyw negeseuon e-bost a anfonwyd ac, os oes angen, adrodd am unrhyw beth a allai gael ei ystyried yn drosedd.

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad

6.5 Polisi Defnydd Derbyniol i Ddisgyblion Ysgol Gynradd.

- Byddaf yn cymryd gofal wrth ddefnyddio offer TG yr ysgol ac yn ei ddefnyddio'n gyfrifol
- Byddaf yn cadw fy nghyfrinair a'm manylion mewngofnodi yn gyfrinachol oni bai bod yn rhaid i mi eu rhannu gydag oedolyn rwy'n ymddiried ynddo
- Byddaf yn rhoi gwybod i oedolyn os byddaf i'n gweld neu'n cael unrhyw ddeunydd neu negeseuon annymunol
- Ni fyddaf yn ymyrryd â chyfrinair; manylion mewngofnodi, gosodiadau na ffeiliau unrhyw un arall ar y cyfrifiadur
- Byddaf yn ofalus wrth lawrlwytho deunydd o'r rhyngwrwyd neu wrth ddefnyddio deunydd rwyf wedi dod ag ef i'r ysgol oherwydd rwy'n deall y risgiau yn gysylltiedig â heintiau gan firsau
- Fy ngwaith fy hun fydd unrhyw waith rwy'n ei lanlwytho i'r rhyngwrwyd
- Rwy'n gwybod bod angen caniatâd arnaf i dynnu ffotograff neu wneud fideo o rywun arall
- Bydd unrhyw negeseuon rwy'n eu rhoi ar-lein neu'n eu hanfon mewn neges e-bost yn gwrtais ac yn gyfrifol
- Ni fyddaf yn anfon negeseuon na'u hanfon ymlaen nac yn creu deunydd sydd â'r bwriad o achosi trallod i bobl eraill
- Rwy'n gwybod bod rhaid i mi fod yn ofalus ynghylch rhoi fy manylion personol i ffwrdd a chysylltu â phobl nad wyf i'n eu hadnabod ar y rhyngwrwyd
- Rwy'n deall y gall yr ysgol wirio sut rwyf wedi defnyddio TG a chysylltu â fy rhiant/gofalwr os yw'n pryderu am fy e-ddiogelwch
- Rwy'n deall efallai na fyddaf i'n cael caniatâd i ddefnyddio cyfrifiaduron yr ysgol neu fynd ar y rhyngwrwyd am gyfnod os nad wyf i'n dilyn y rheolau hyn ac y gallai hyn fod yn wir hyd yn oed os gwnaed y gweithgaredd y tu allan i'r ysgol.

Enw'r disgybl

Llofnod

Dyddiad

6.6 Polisi Defnydd Derbyniol i Ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen

- Byddaf yn cymryd gofal wrth ddefnyddio offer TG yr ysgol ac yn ei ddefnyddio'n gywir
- Byddaf yn rhannu fy nghyfrinair a'm manylion mewngofnodi gydag oedolion rwy'n ymddiried ynddynt yn unig
- Byddaf yn dweud wrth oedolyn os welaf i unrhyw beth sy'n fy ngofidiod i
- Ni fyddaf yn tynnu llun neu'n gwneud fideo o unrhyw un heblaw eu bod nhw'n hapus gyda hynny
- Bydd fy holl negeseuon yn gwrtais
- Ni fyddaf yn ysgrifennu unrhyw beth sy'n gofidiod rhywun arall yn fwriadol
- Rwy'n deall y gall yr ysgol siarad â'm rhiant neu ofalwr os ydyw'n poeni am sut rwy'n defnyddio offer TG yr ysgol
- Rwy'n deall efallai na fyddaf yn cael caniatâd i ddefnyddio cyfrifiaduron neu ryngwrwyd yr ysgol am gyfnod os nad ydw i'n deall y rheolau hyn, hyd yn oed oes cafodd y rheolau eu torri y tu allan i'r ysgol

Enw'r Disgybl

Llofnod

Dyddiad

6.7 Llythyr i Rien i gyd-fynd â Ffurflenni Polisiâu Defnydd Derbyniol ar gyfer disgyblion

Annwyl Rien

Defnyddio'r rhyngrwyd a'r e-bost yn ddiogel yn yr ysgol

Fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron yn yr ysgol i fynd ar y rhyngrwyd ac i anfon negeseuon e-bost. Mae addysgu disgyblion ar ddefnyddio'r cyfleusterau hyn yn ddiogel yn rhan o'r cwricwlwm. Bydd eich plentyn yn cael ei gyflwyno i e-ddiogelwch mewn ffordd gynlluniedig a chynyddol trwy gydol yr ysgol er mwyn ei helpu i ddeall sut i gadw'i hun yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a dyfeisiau electronig eraill. Byddwn yn sicrhau bod defnydd diogel bob amser yn cael ei gynnwys pan fydd gweithgareddau newydd yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddiogelwch eich plant, rydym bob amser yn sicrhau bod diben addysgol gwerthfawr yn gysylltiedig â defnyddio'r rhyngrwyd, a bod hynny'n cael ei oruchwylio. Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Penfro trwy system wedi'i hidlo, sy'n atal mynediad at y rhan fwyaf o ddeunydd annymunol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bosibilrwydd bob amser y gallai deunydd annymunol ddianc drwy'r hidlyddion ond byddwn yn dweud wrth blant beth i'w wneud pe bai hynny'n digwydd. Byddwn yn addysgu disgyblion i ymddwyn yn gyfrifol ar y rhyngrwyd a deall rhai o'r risgiau cysylltiedig.

Pan fydd disgyblion yn defnyddio unrhyw fath o gyfathrebu electronig, bydd hyn bob amser yn cael ei reoli'n ofalus fel ein bod yn gwybod pwy y mae disgyblion yn cysylltu â nhw.

Mae llawer o blant yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol erbyn hyn, rhai drwy eu ffonau symudol. Dylech gofio bod hyn yn rhoi llawer mwy o ryddid i ddisgyblion ddefnyddio'r rhyngrwyd ac, o ganlyniad, ei gwneud hi'n llawer haws iddynt gael at

ddeunyddiau a gweithgareddau a allai fod yn anaddas. Yn ogystal, gallai disgyblion ddefnyddio'r rhyddid hwn i gysylltu â phobl nad ydynt yn eu hadnabod, er eu bod yn ystyried bod y bobl hyn yn ffrindiau, gan eu bod yn cysylltu â nhw'n rheolaidd. Gallai disgyblion hefyd ddefnyddio rhai o'r cyfryngau hyn (fel negeseuon testun, camerâu ar ffonau symudol neu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook) i anfon negeseuon trallodus neu gyhoeddi pethau am ddisgyblion eraill y gellid eu hystyried yn fwlio.

Byddwn yn addysgu disgyblion am 'seiber-fwlio' a pherygl cysylltu â phobl ddieithr ar-lein fel rhan o'r cwricwlwm. Rydym eisiau i chi wybod ein bod yn cymryd unrhyw weithgarwch o'r math hwn o ddifrif, hyd yn oed os yw'n digwydd y tu allan i'r ysgol, oherwydd gall beri gofid enfawr i'r derbynnydd. Byddem yn cysylltu â chi pe bai problem o'r fath yn codi ac yn gofyn am eich cymorth wrth fynd i'r afael â materion.

Amgaeaf gopi o'r Polisi Defnydd Derbyniol sydd ar waith yn ein hysgol, y mae disgwyl i'ch plentyn ei ddilyn.

Yn gywir

Pennaeth

6.8 Llythyr Caniatáu Delweddau a Fideos a Ffurflen Caniatâd Rhieni

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

O bryd i'w gilydd, rydym yn tynnu ffotograffau o'r plant yn yr ysgol. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r delweddau hyn ym mhrosbectws yr ysgol neu mewn cyhoeddiadau eraill wedi'u hargraffu, mewn arddangosfeydd ac ar ein gwefan. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud recordiadau fideo neu gwegamera ar gyfer gwefan yr ysgol, cynadleddau rhwng ysgolion, monitro a defnydd addysgol arall.

Rydym yn anfon delweddau i'r cyfryngau newyddion hefyd, neu gall y cyfryngau ymweld â'r ysgol, gan dynnu eu ffotograffau eu hunain neu recordio ffilm (er enghraifft, o ymwelwyr pwysig â'r ysgol neu ddigwyddiad arall uchel ei broffil). Bydd disgyblion yn aml yn ymddangos yn y delweddau hyn. Gallai'r cyfryngau newyddion ddefnyddio'r delweddau mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu (gan gynnwys papurau newydd lleol neu genedlaethol), ar raglenni newydd ar y teledu neu ar eu gwefannau. Yna, byddant yn cadw'r delweddau hyn yn eu harchif. Gallant hefyd rannu'r ffotograffau â chyfryngau eraill trwy syndicâd, naill ai i'w defnyddio mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu, ar wefannau, neu ar gyfer y ddau. Pan fyddwn yn cyflwyno ffotograffau a gwybodaeth i'r cyfryngau, nid ydym yn gallu rheoli pryd, ble, os na sut y cânt eu defnyddio.

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, mae angen eich caniatâd arnom cyn y gallwn dynnu ffotograffau o'ch plentyn neu ei recordio o gwbl.

Amodau defnydd:

1. Mae'r ffurflen hon yn ddilys am y cyfnod cyfan y bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol hon. Ni chaiff delweddau o'ch plentyn eu defnyddio ar ôl y cyfnod hwn. Ysgrifennwch at yr ysgol os ydych yn dymuno atal caniatâd ar unrhyw adeg.

2. Ni chaiff plant eu henwi mewn unrhyw ffotograff na fideo sy'n cael ei ddefnyddio ar wefan yr ysgol.
3. Efallai y byddwn yn defnyddio ffotograffau neu recordiadau o grwpiau neu ddsbarthiadau gyda labeli cyffredinol iawn e.e. 'gwern wyddoniaeth'.
4. Byddwn yn cymryd delweddau o weithgareddau sy'n rhoi argraff dda o'r ysgol a'r plant.
5. Ni chaiff delweddau sy'n peri embaras neu drallod eu defnyddio. Ni fydd y delweddau yn gysylltiedig â materion negyddol neu sensitif.
6. Byddwn yn defnyddio delweddau o ddisgyblion wedi'u gwisgo'n briodol yn unig.
7. Gwnawn bob ymdrech i sicrhau nad ydym yn caniatáu i ddelweddau gael eu cymryd o unrhyw blentyn nad ydym wedi cael caniatâd ar ei gyfer neu blant 'mewn perygl' neu na chaniateir tynnu eu ffotograffau am resymau cyfreithiol neu gymdeithasol.
8. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y delweddau'n cael eu defnyddio dim ond at y diben y bwriadwyd cymryd y delweddau. Fodd bynnag, ni allwn roi sicrwydd o hyn ac nid ydym yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am y ffordd y mae gwefannau neu gyhoeddwy eraill yn defnyddio'r delweddau nac unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'u cyhoeddi.

Sylwer, mae gwefannau i'w gweld ledled y byd ac nid dim ond yn y Deyrnas Unedig lle y mae cyfraith y DU yn berthnasol. Wrth roi caniatâd, rydych yn deall y gallai'r delweddau gael eu defnyddio ar ffurf electronig ac wedi'u hargraffu.

I roi eich caniatâd, llenwch y wybodaeth drosodd a dychwelwch y ffurflen i'r ysgol erbyn diwedd Medi. Byddwn yn cymryd yn ganiataol NA roddir caniatâd os na chaiff y ffurflen ei dychwelyd ac, felly, ni chaiff eich plentyn ei dewis i ymddangos mewn unrhyw sesiynau tynnu ffotograffau nac yn ein cylchlythron ac ati.

Ticiwch y blychau sy'n berthnasol:

Rhoddaf fy nghaniatâd ar gyfer cymryd delweddau o'm plentyn i'w defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys cyhoeddiadau wedi'u hargraffu a chyhoeddiadau electronig, recordiadau fideo a gwegamera ac ar wefannau.

Rhoddaf fy nghaniatâd i ddelweddau o'm plentyn gael eu defnyddio gan y cyfryngau newyddion ar ffurf wedi'i argraffu a/neu electronig a'u cadw yn eu harchifau. Gallai hyn gynnwys delweddau y mae'r ysgol wedi'u hanfon at y cyfryngau newyddion a delweddau / recordiadau a wneir gan y cyfryngau eu hunain os cânt eu gwahodd i'r ysgol i roi sylw i ddigwyddiad.

Nid wyf am i ddelwedd fy mhleintyn gael ei defnyddio mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd

Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth drosodd.

Enw'r plentyn: _____

Dosbarth presennol: _____

Llofnod y rhiant
neu'rgofalwr: _____

Enw
(priflythrennau): _____

Dyddiad: _____

7.0 Cysylltiadau a Chyfeiriadau e-Ddiogelwch

Arweinydd System ar gyfer TGCh

Gwasanaeth Gwella Ysgolion Sir Benfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551 / 07867 381354
duncan.whitehurst@pembrokeshire.gov.uk

Desg Gymorth Cyngor Sir Penfro
Cymorth â hidlo a diogelwch y rhwydwaith.
Ffôn: 01437 775882
hd@pembrokeshire.gov.uk

Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Honiadau (LADO)
Linda Crawford
01437 77 6696/6562

Tîm Asesu Gofal Plant (CCAT)
Desg y Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd
01437 77 6322 neu 6325 neu 6444
Y tu allan i oriau swyddfa 08708 509508

Rheolwr Amddiffyn mewn Addysg
Ffôn: 01437 776549 / 07979 058827
cheryl.loughlin@pembrokeshire.gov.uk

Arweinydd System Amddiffyn mewn Addysg
Ffôn: 01437 775499 / 07917 263366
kathy.youngpowell@pembrokeshire.gov.uk

Parth e-Ddiogelwch Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan HWB
www.hwb.wales.gov.uk/Home/Pages/e-safety.aspx

Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein
www.ceop.gov.uk

Gwefan Thinkuknow
www.thinkuknow.co.uk/

South West Grid for Learning
www.swgfl.org.uk/Staying-Safe

UK Safer Internet Centre
www.saferinternet.org.uk

Wise Kids
www.wisekids.org.uk

Internet Watch Foundation
www.iwf.org.uk/

Childline
www.childline.org.uk/

Canllaw Stay Safe y BBC
www.bbc.co.uk/cbbc/topics/stay-safe

Internet Safety Zone
www.internetsafetyzone.com/

Kidsmart
www.kidsmart.org.uk/

NCH – Yr Elusen Blant
www.nch.org.uk/information/

NSPCC
www.nspcc.org.uk/html/home/needadvice/needadvice

Stop Text Bully
www.stoptextbully.com

Virtual Global Taskforce – Rhoi Gwybod am Gamdriniaeth
www.virtualglobaltaskforce.com/

8.0 Fframwaith Cyfreithiol

Nodiadau ynghylch y fframwaith cyfreithiol

Lluniwyd yr adran hon i roi gwybod i ddefnyddwyr am faterion cyfreithiol sy'n berthnasol i ddefnyddio cyfathrebiadau electronig. Nid yw'n gyngor proffesiynol.

Mae llawer o bobl ifanc ac, yn wir, rhai staff, yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn rheolaidd heb fod yn ymwybodol y gallai rhai o'u gweithgareddau fod yn anghyfreithlon. Mae'r gyfraith yn datblygu'n gyflym a rhoddwyd newidiadau diweddar ar waith drwy:

- Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, sy'n cyflwyno troseddau newydd yn ymwneud â pharatoi i bwrpas rhyw ac, yn gysylltiedig â gwneud/dosbarthu delweddau anwedus o blant, cododd oedran y plentyn i 18 oed;
- Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006 sy'n creu troseddau newydd yn ymwneud ag annog casineb yn erbyn pobl am resymau crefyddol; a
- Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a wnaeth ymestyn cyrhaeddiad Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 gan wneud ymosodiadau atal gwasanaeth yn drosedd.

Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006

O dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd i fygwth pobl oherwydd eu ffydd, neu annog casineb crefyddol trwy arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol. Mae cyfreithiau eraill eisoes yn amddiffyn pobl rhag bygythiadau ar sail eu hil, cenedligrwydd neu gefndir ethnig.

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Mae'r drosedd newydd o ran paratoi i bwrpas rhyw yn cael ei chyflawni os ydych chi dros 18 oed ac wedi cyfathrebu â phlentyn o dan 16 oed o leiaf ddwywaith (gan gynnwys dros y ffôn neu drwy'r rhyngrwyd). Mae'n drosedd i gyfarfod â nhw neu deithio i gyfarfod â nhw rywle yn y byd gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rhywiol.

Mae gwneud i blentyn o dan 16 oed wyllo gweithred rhywiol yn anghyfreithlon, gan gynnwys edrych ar ddelweddau fel fideos, ffotograffau neu gwegamerau, er eich boddhad eich hun.

Yn ogystal, mae'n drosedd i unrhyw un mewn swydd gyfrifol gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch rhywiol gydag unrhyw un o dan 18, y maent mewn swydd gyfrifol yn gysylltiedig â nhw. (Yn nodweddiadol, daw athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuencid a gweithwyr iechyd proffesiynol yn y categori hwn).

Mae unrhyw gyfathrach rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed yn cael ei ystyried yn drais.

D.S. Efallai bod ysgolion eisoes yn meddu ar gopi o ddogfen "Children & Families: Safer from Sexual Crime" fel rhan o'u pecynnau amddiffyn plant.

Mae mwy o wybodaeth am Ddeddf 2003 i'w chael yn www.teachernet.gov.uk

Deddf Cyfathrebiadau 2003 (adran 127)

Mae rhywun sy'n anfon neges neu ddeunydd arall sy'n hynod ffiائد neu o natur anwedus, aflan neu fygythiol drwy'r rhyngrwyd; neu'n anfon neges ffug trwy gyfrwng y rhyngrwyd neu'n ei defnyddio'n gyson at ddiben achosi dichter, anghyfleustra neu bryder diangen yn euog o drosedd a allai, yn sgil euogfarn, arwain at gyfnod o garchar.

Mae'r geiriad hwn yn bwysig oherwydd bod trosedd wedi'i chyflawni cyn gynted ag y bydd y neges wedi'i hanfon: nid oes angen profi unrhyw fwriad na diben.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gofyniad bod yn rhaid i unrhyw un sy'n trafod gwybodaeth bersonol hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y math o brosesu sy'n cael ei weinyddu ganddo, a rhaid cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data pwysig wrth drafod data personol yn ymwneud ag unrhyw unigolyn byw. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawliau i unigolion gael at eu data personol, yn rhoi iawndal ac yn atal prosesu.

Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 (adrannau 1 i 3)

Ni waeth beth yw symbyliad unigolyn, mae'r canlynol yn drosedd o dan y Ddeddf:

- cael mynediad at ffeiliau neu feddalwedd cyfrifiadurol heb ganiatâd (er enghraifft, defnyddio cyfrinair rhywun arall i gael at ffeiliau);
- rhoi mynediad heb awdurdod, fel yr uchod, er mwyn cyflawni trosedd bellach (fel twyll); neu
- achosi nam i weithrediad cyfrifiadur neu raglen (er enghraifft, wedi'i achosi gan firsau neu ymosodiadau atal gwasanaeth).

Gallai dinasyddion y DU neu breswylwyr yn y DU gael eu hystraddodi i wlad arall os cânt eu hamau o gyflawni unrhyw rai o'r troseddau uchod.

Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 (adran 1)

O dan y ddeddfwriaeth hon, mae'n drosedd i anfon neges electronig (e-bost) sy'n cyfleu deunydd anwedus, hynod ffaidd, bygythiol neu wybodaeth sy'n ffug; neu sydd o natur anwedus neu hynod ffaidd os diben ei anfon oedd peri i'r derbynnydd ddiodef trallod neu bryder.

Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

Hawlfraint yw'r hawl i atal pobl eraill rhag copïo neu ddefnyddio "gwaith" unigolyn heb ei ganiatâd.

Y mae'n rhaid mai creadigaeth yr awdur ei hun yw'r deunydd y mae hawlfraint yn perthyn iddo (a elwir yn y busnes yn "waith") a rhaid iddo ddeillio o rywfaint o fedr a chrebwyll. Caiff ei greu pan fydd unigolyn yn mynegi syniad ar ffurf ddiriaethol. Mae gwaith fel testun, cerddoriaeth, sain, ffilm a rhaglenni oll yn gymwys i gael eu hamddiffyn gan hawlfraint. Fel arfer, awdur y gwaith yw perchennog yr hawlfraint, ond os cafodd ei greu yn ystod cyflogaeth, mae'n perthyn i'r cyflogwr.

Mae copi'r cyfan neu ran sylweddol o waith rhywun heb gael caniatâd yr awdur yn dor hawlfraint. Fel arfer, bydd trwydded sydd ynghlwm wrth y gwaith yn caniatáu i ddefnyddiwr ei gopïo neu ei ddefnyddio at ddibenion cyfyngedig. Byddai'n ddoeth darllen telerau trwydded bob amser cyn i chi gopïo neu ddefnyddio deunydd rhywun arall.

Yn ogystal, mae'n anghyfreithlon i addasu neu ddefnyddio meddalwedd heb drwydded neu mewn ffyrdd y mae telerau trwydded y feddalwedd yn eu gwahardd.

Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (adrannau 17 – 29)

O dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd i ysgogi casineb hiliol trwy arddangos, cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol. Fel Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006, mae'n drosedd hefyd i feddu ar ddeunydd ymfflamychol gyda'r bwriad o'i ryddhau.

Deddf Gwarchod Plant 1978 (Adran 1)

Mae'n drosedd i gymryd, caniatáu eu cymryd, gwneud, meddu ar, dangos, dosbarthu neu hysbysebu delweddau anwedus o blant yn y Deyrnas Unedig. Mae plentyn at y diben hwn yn cynnwys unrhyw un o dan 18 oed. Mae edrych ar ddelwedd anwedus o blentyn ar eich cyfrifiadur yn golygu eich bod wedi gwneud delwedd ddigidol. Mae delwedd o blentyn hefyd yn cynnwys ffug-ffotograffau (wedi'u coladu'n ddigidol neu fel arall). Gallai unigolyn sy'n euog o drosedd o'r fath wynebu hyd at 10 mlynedd yn y carchar.

Deddfau Cyhoeddiadau Anllad 1959 a 1964

Mae cyhoeddi erthygl "anllad" yn drosedd. Mae cyhoeddi yn cynnwys trosglwyddiadau electronig.

Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997

Ni chaiff unigolyn fynd ati i ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfystyr ag aflonyddu unigolyn arall, y mae'n gwybod neu y dylai wybod bod hyn gyfystyr ag aflonyddu'r unigolyn arall. Mae unigolyn y mae ei ymddygiad yn achosi i unigolyn arall ofni, o leiaf ddwywaith, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn yn euog o drosedd os yw'n gwybod neu os dylai wybod y bydd ei ymddygiad yn achosi i'r unigolyn arall ofni felly ar bob un o'r achlysuron hynny.

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn rheoleiddio rhyng-gipio cyfathrebiadau ac yn creu trosedd i ryng-gipio neu fonitro cyfathrebiadau heb ganiatâd y partion sy'n rhan o'r cyfathrebu.

Cyflwynwyd Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae Rheoliadau Telathrebu (Arfer Busnes Cyfreithlon) (Rhyng-gipiad Cyfathrebiadau) 2000, fodd bynnag, yn caniatáu graddfa o fonitro a chadw cofnodion, er enghraifft i sicrhau bod cyfathrebiadau yn berthnasol i weithgarwch ysgol neu i ymchwilio i neu ddarganfod defnydd anawdurdodedig o'r rhwydwaith. Serch hynny, mae unrhyw waith monitro yn amodol ar gydsyniad gwybodus; hynny yw, mae'n rhaid bod camau wedi'u cymryd i sicrhau bod pawb a allai ddefnyddio'r system yn gwybod y gallai cyfathrebiadau gael eu monitro.

Mae perygl y gall monitro cudd heb hysbysu defnyddwyr bod goruchwyllo'n mynd yn ei flaen fynd yn groes i ddeddfwriaeth preifatrwydd a diogelu data.

9.0 Cydnabyddiaeth

Lluniwyd y ddogfen hon gan Grŵp e-Ddiogelwch Cyngor Sir Penfro mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gaerfyrddin. Fe'i seilwyd ar arweiniad e-ddiogelwch a gyhoeddwyd gan Naace ac mae'n cynnwys datganiadau a gyhoeddwyd gan Gynghorau Sir Dwyrain Sussex, Kirklees a Chaint a'r South West Grid for Learning.